wavehill

Social and economic research

Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

wavehill.com

# Effaith Cynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru

**Adroddiad yr Asesiad o'r Effaith Gymdeithasol**




Un Llais Cymru

One Voice Wales

# Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd


## Ein swyddfeydd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa gorllewin Lloegr: Suite 1203, BLOCK Bristol, Fairfax Street, Bristol, BS1 3BN
- Swyddfa gogledd Lloegr: The Corner, 26 Mosley Street, Newcastle, NE1 1DF
- Swyddfa Llundain: 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, London, N4 3EY

## Manylion cyswllt

Ffôn: 0330 1228658

E-bost: wavehill@wavehill.com

## Awduron yr adroddiad

Rhys Maher, Jakob Abekhon, Dr Nikola Vousden, Charlie Bagley, Ioan Teifi, Endaf Griffiths

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn y lle cyntaf at Rhys Maher gan ddefnyddio rhys.maher@wavehill.com


## Mwy o wybodaeth

www.wavehill.com


© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r adroddiad hwn yn destun hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.



Llun y clawr blaen gan Joel Muniz o Unsplash.

Dyddiad y ddogfen: Ionawr 2026

# Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r nifer fawr o unigolion a roddodd o'u hamser i gynorthwyo yn y gwerthusiad, ac roedd pob un ohonynt yn bwysig wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn. Ni fyddai'r gwerthusiad hwn wedi bod yn bosibl heb yr holl gyfraniadau hyn.

# Rhestr o dalfyriadau

| Talfyriad | Enw Llawn |
|---|---|
| PEFTA | Pennard Energy, Food and Technology Assistance |
| UNESCO | Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig |

# Tudalen gynnwys

## Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........ v

1. Ynglŷn â'r adroddiad hwn ........ 1
   - 1.1 Amcanion ymchwil allweddol ........ 1
   - 1.2 Ein dulliau asesu ........ 1
   - 1.3 Ffurf yr adroddiad ........ 2
2. Cyd-destun ........ 3
3. Cyfanswm Effaith Gymdeithasol Cynghorau Cymuned a Thref ........ 6
   - 3.1 Y sampl ........ 6
   - 3.2 Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi ledled Cymru ........ 9
   - 3.3 Gwirfoddoli ........ 9
   - 3.4 Canolfannau clyd ........ 10
   - 3.5 Gweithgareddau ieuenctid a gofal plant ........ 16
   - 3.6 Gweithgareddau llesiant ........ 19
   - 3.7 Mentrau bwyd ........ 21
   - 3.8 Cyngor a chymorth ynghylch taliadau ........ 26
   - 3.9 Dosbarthu grantiau ........ 27
   - 3.10 Trafnidiaeth gymunedol ........ 29
   - 3.11 Cynhwysiant digidol, atgyweirio technoleg ac ailgylchu ........ 31
4. Anghenion Cynghorau Cymuned a Thref ........ 37
   - 4.1 Rhwystrau a heriau sy’n wynebu Cynghorau ........ 37
   - 4.2 Y cymorth sydd ar gael gan Un Llais Cymru ........ 40
5. Casgliadau ........ 44

Atodiad A - Mewnbynnau Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi ........ 46

Atodiad B – Tabl Gwerth Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi ........ 49

Atodlen C – Rhestr o Randdeiliaid ........ 54

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 2.1: Mynegai chwyddiant prisiau defnyddwyr, lefelau prisiau 2015 fel y flwyddyn sylfaen ....... 3
Ffigur 2.2: Newid termau real mewn gwariant refeniw y pen ymhlith awdurdodau lleol Cymru ers 2010 ....... 4
Ffigur 3.1: Map o ardaloedd ymatebwyr yr arolwg a'r astudiaethau achos ....... 8
Ffigur 4.1: Cynghorau Cymuned a Thref yn ôl maint praesept ....... 37
Ffigur 4.2: Nifer y gweithgareddau costau byw (hunan-adroddwyd) a ddarparwyd gan gynghorau yn ôl praesept ....... 38
Ffigur 4.3: Rhwystrau i gynnal gweithgareddau costau byw a adroddwyd gan gynghorau ....... 39
Ffigur 4.4: Defnydd cynghorau o gymorth costau byw Un Llais Cymru ....... 41

# Crynodeb Gweithredol

Mae Cynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru yn chwarae rhan gynyddol hanfodol wrth gefnogi preswylwyr drwy’r argyfwng costau byw. Wrth i chwyddiant, llai o bŵer gwario gan awdurdodau lleol, a phwysau cymdeithasol ac economaidd cynyddol ddwysáu ers 2021, mae’r cynghorau hyn wedi camu i'r adwy i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau hanfodol dan arweiniad y gymuned yn ystod yr argyfwng costau byw.


Gwnaeth Un Llais Cymru gomisiynu Wavehill i gynnal asesiad o'r effaith gymdeithasol ar ymateb y sector i'r argyfwng costau byw. Gan ddefnyddio arolwg o 237 o gynghorau, cyfweliadau ansoddol, astudiaethau achos a data Un Llais Cymru, mae'r asesiad yn defnyddio fframwaith Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi i feintioli'r gwerth a grëwyd. Yn y flwyddyn ddiwethaf, cynhyrchodd cynghorau'r sampl werth cymdeithasol o £25.97 miliwn, sy'n gyfwerth ag **adenillion cymdeithasol o fuddsoddi o £4.86 am bob £1 a wariwyd**.

Mae ein hymchwil wedi canfod amrywiaeth sylweddol o weithgareddau a ddarparwyd gan Gynghorau Cymuned a Thref i ddiwallu anghenion eu preswylwyr, gan gynnwys canolfannau clyd, mentrau bwyd, gweithgareddau ieuenctid a lles, cymorth gyda budd-daliadau a thaliadau, grantiau, cymorth gyda chysylltedd digidol a chynlluniau trafnidiaeth gymunedol.

Mae ein hastudiaeth hefyd yn amlygu'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu Cynghorau Cymuned a Thref sydd eisiau darparu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chostau byw yn eu cymunedau, a'r prif rai yn eu plith yw cyfyngiadau ar gapasiti, o ran staff a chyllid. Mae dros hanner Cynghorau Cymuned a Thref Cymru yn gweithredu ar braesept o lai na £25,000, ac mae 60% o'r cynghorau a ymatebodd i'n harolwg yn cyflogi un aelod o staff yn unig, fel arfer am wyth awr yr wythnos. Mae'r cyfyngiadau hyn yn cyfyngu ar allu cynghorau i ehangu gwasanaethau neu gychwyn gweithgareddau newydd. Er gwaethaf hyn, dangosodd yr ymatebion i'n harolwg fod 37% o'r cynghorau sy'n darparu cymorth costau byw ar hyn o bryd yn dymuno ehangu, ac y byddai bron i hanner y cynghorau nad ydynt yn darparu cymorth yn hoffi dechrau darparu cymorth.

Caiff Un Llais Cymru ei gydnabod yn eang gan gynghorau fel hwylusydd allweddol wrth sicrhau darpariaeth. Gwnaeth y cynghorau a ymatebodd i'n harolwg adrodd lefelau uchel o foddhad â chymorth costau byw Un Llais Cymru, gan roi sgôr cyfartalog o 4.22 o 5 i'r rhaglen. Adroddodd llawer o gynghorau y byddai eu gweithgareddau wedi arafu neu wanhau neu na fyddent wedi datblygu o gwbl heb gymorth Un Llais Cymru.

Mae'r canfyddiadau'n amlygu sector sy'n cynnwys carfan o gynghorau hynod ymroddedig sydd wedi creu gwerth amlwg i'w preswylwyr lleol, yn ogystal â charfan o gynghorau sydd ag uchelgais i gynnig mwy mewn perthynas â chostau byw. Mae ehangu effaith y sector yn ei gyfanrwydd yn gofyn am fwy o fuddsoddiad, gwell cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a chefnogaeth barhaus gan Un Llais Cymru i ddiwallu anghenion cynyddol cymunedau.


Un Llais Cymru
One Voice Wales
Un Llais Cymru
Asesiad Efaith Gymdeithasol 2026
wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd
Fe Gynhyrchodd Cynghorau Cymuned a Thref
£25.97m
Mewn Gwerth Cymdeithasol
Canolfannau Clyd: £3,270,836
Gweithgareddau Ieuenctid: £16,541,219
Gweithgareddau Lles: £1,940,890
Mentrau Bwyd: £717,553
Cymorth Budd-daliadau: £1,115,541
£4.86
Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi am bob £1 a wariwyd
£169,200+
oriau gwirfoddol
£675,000+
Effaith ariannol uniongyrchol cyngor ar fudd-daliadau
187,000+
pryd wedi darparu
Y prif rwystrau sy'n wynebu cynghorau cymuned a thref wrth gyflawni gwaith costau byw yw:
Cyfyngiadau staff 79%
Diffyg cyllid 69%
Cyfyngiadau lle 44%
Ymwybyddiaeth o angen lleol 36%
Rhoddodd cynghorau sgôr o 4.22 allan o 5 i ddefnyddioldeb cefnogaeth Un Llais Cymru
Mae Un Llais Cymru yn darparu canllawiau, adroddiadau a gweminarau ynglŷn â
Tlodi tanwydd a mannau cynnes
Budd-daliadau
Cynhwysiant digidol
Llesiant a chefnogaeth
Ceisio am gyllid loteri
Tlodi bwyd
Trafnidiaeth gymunedol
Cefnogaeth yn ystod y Nadolig
Ymgysylltu cymunedol

# 1. Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Gwnaeth Un Llais Cymru gomisiynu Wavehill i gynnal astudiaeth i fesur effaith gymdeithasol y gwaith a wnaed gan Gynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru i fynd i'r afael â heriau costau byw yn eu hardaloedd lleol.

Fel y corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref, mae Un Llais Cymru wedi gweld twf amlwg yn nifer y cynghorau ledled Cymru sy'n cymryd rhan fwy gweithredol wrth ymateb i bwysau costau byw fel ffordd o gefnogi eu hardaloedd lleol. Trwy eu Prosiect Costau Byw, darparodd Un Llais Cymru adnodd penodol i rannu arferion da ac i gynghori cynghorau ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o gefnogi eu cymunedau.

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r ffyrdd amrywiol y mae Cynghorau Cymuned a Thref yn cefnogi eu preswylwyr lleol. Gan ddefnyddio dull adenillion cymdeithasol o fuddsoddi, mae'r adroddiad yn amlinellu effaith gymdeithasol cynghorau a gwerth ariannol eu gwaith. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu'r gwaith a wneir gan gynghorau unigol a'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth gefnogi eu preswylwyr.

## 1.1 Amcanion ymchwil allweddol

Ceisiodd yr ymchwil gael gwell dealltwriaeth o effaith Cynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru, gan anelu at fynd i'r afael â'r amcanion ymchwil canlynol:

1) Meintioli'r gwerth ariannol a'r effaith gymdeithasol sy’n cael eu cynhyrchu gan Gynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru;
2) Amlygu'r mentrau a'r cymorth sy’n cael eu darparu gan gynghorau unigol ledled Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw yn eu hardaloedd;
3) Nodi'r rhwystrau a'r heriau sy'n wynebu Cynghorau Cymuned a Thref, yn ogystal â'r cymorth sydd ei angen arnynt yn y dyfodol;
4) Arddangos effaith gwaith Un Llais Cymru fel hwylusydd a galluogwr i'r gwaith a wneir gan Gynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru.

## 1.2 Ein dulliau asesu

Amlinelliad byr o'r dulliau ymchwil a'r mewnbynnau.

Mae'r fethodoleg ar gyfer yr asesiad hwn yn defnyddio dull Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi. Mae hwn yn fframwaith ar gyfer mesur a chyfrif am y gwerth cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol ehangach sy’n cael eu creu gan ymyriad. Yn wahanol i ddadansoddiad cost a budd traddodiadol, mae Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi yn mynd y tu hwnt i fesurau ariannol i gynnwys canlyniadau sy'n bwysig i randdeiliaid, gan gynnwys gwelliannau o ran lles, cynhwysiant cymdeithasol, a gwytnwch cymunedol.

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer y gwaith ymchwil hwn rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Ionawr 2026 ac roedd yn cynnwys:

- Adolygiad desg o ddata Un Llais Cymru a rannwyd â Wavehill, gan gynnwys arolygon blaenorol, gwybodaeth fonitro fewnol ac adnoddau a grëwyd i gynorthwyo Cynghorau Cymuned a Thref
- Arolwg ar-lein o Gynghorau Cymuned a Thref i gasglu data meintiol ar eu gweithgareddau mewn perthynas â chostau byw, megis y cyllid a ddarparwyd a nifer y bobl a gynorthwywyd. Gwahoddwyd pob un o'r 731 o Gynghorau Cymuned a Thref i gwblhau'r arolwg, a chawsom 237 o ymatebion gyda digon o ddata i'w gynnwys yn ein dadansoddiad, sy'n gyfradd ymateb o 34.2%
- Ymgynghoriadau â staff Un Llais Cymru, aelodau'r bwrdd a rhanddeiliaid allweddol eraill; gweler atodlen C i gael rhestr lawn o'r sefydliadau yr ymgynghorwyd â nhw. Defnyddiwyd yr ymgynghoriadau hyn i gael dealltwriaeth gyd-destunol ehangach o sectorau sectorau'r Cynghorau Cymuned a Thref a gwirio canlyniadau ein harolwg a'n model
- Cyfweliadau ansoddol â phymtheg o Gynghorau Cymuned a Thref i gasglu gwybodaeth ansoddol bellach am eu hymwneud â chymorth Un Llais Cymru. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn naill ai dros y ffôn neu'n rhithiol â'r cynghorau a roddodd ganiatâd i gysylltu â nhw ymhellach yn dilyn yr arolwg meintiol.
- Astudiaethau achos i ddangos y gweithgareddau unigol a gynhaliwyd gan Gynghorau Cymuned a Thref a'u heffaith gymdeithasol.

## 1.3 Ffurf yr adroddiad

Mae'r adroddiad wedi'i rannu yn ôl yr adrannau canlynol:


- Adran 2: Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg byr o'r amodau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru, sydd wedi cyd-daro â'r cynnydd yn nifer y Cynghorau Cymuned a Thref sy'n dewis darparu gweithgareddau costau byw
- Adran 3: Mae'r adran hon yn ymdrin â chanlyniadau ein model effaith gymdeithasol, gan agor â thrafodaeth o'r sampl o Gynghorau Cymuned a Thref a ymatebodd i'n harolwg, ac yna amlinelliad o'r effaith gymdeithasol a gynhyrchwyd gan y sector wedi'i dadansoddi yn ôl ymyriad
- Adran 4: Mae hyn yn cwmpasu adborth ychwanegol a gasglwyd yn ein harolwg a'n cyfweliadau gyda Chynghorau Cymuned a Thref ynghylch y rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth gyflawni gweithgareddau costau byw, y cymorth y maent yn ei dderbyn gan Un Llais Cymru, a'r cymorth sydd ei angen arnynt i barhau â'r ddarpariaeth neu ei hehangu
- Adran 5: Casgliadau ac argymhellion.

# 2. Cyd-destun

Mae'r bennod hon yn dangos sut mae'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol wedi newid yng Nghymru ers pandemig COVID-19, gan amlinellu'r cyd-destun lle mae Un Llais Cymru wedi gweld cynnydd yn nifer eu haelodau sy'n darparu ymyriadau costau byw.

Ers mis Mawrth 2021, mae aelwydydd yng Nghymru wedi profi cyfnod o chwyddiant ansefydlog. Er bod cyfradd chwyddiant wedi sefydlogi o'i hanterth ym mis Hydref 2022, roedd lefelau prisiau cyffredinol ar ddiwedd 2025 tua 27.5% yn uwch nag yr oeddent ar ddechrau 2021.

Ffigur 2.1: Mynegai chwyddiant prisiau defnyddwyr, lefelau prisiau 2015 fel y flwyddyn sylfaen




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.


Daeth grŵp arbenigol Llywodraeth Cymru ar yr argyfwng costau byw i'r casgliad bod chwyddiant, wedi'i ysgogi gan ffactorau macro-economaidd, wedi cael 'effaith ddofn a chyfansawdd ar fywydau llawer o bobl'[1]. Gwaethygodd yr effeithiau hyn yr amodau economaidd-gymdeithasol a oedd yn bodoli eisoes gan greu heriau newydd yn gymdeithasol ac o ran iechyd a llesiant. Mae rhenti a thaliadau morgais sy'n codi, ynghyd â chyflogau sy'n llonyddu, wedi lleihau incwm gwario aelwydydd, ac mae nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghymru wedi codi o tua 275,000 yn 2021 i dros 410,000 yn 2025[2].

[1] Grŵp Allforio Llywodraeth Cymru ar Argyfwng y Costau Byw, Ymateb Cryno ac Argymhellion ar gyfer Gweithredu, Awst 2023.
[2] Llywodraeth Cymru, Trosolwg o'r Farchnad Lafur, Medi 2025.

Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2023 fod 94% o'r ymatebwyr wedi nodi cynnydd yn eu costau byw, ac roedd 77% o bobl yn dweud eu bod naill ai'n bryderus iawn neu rywfaint yn bryderus am y cynnydd mewn costau byw. Canfu eu hymchwil fod yr argyfwng costau byw yn arwain at ystod eang o broblemau, gan gynnwys 44% yn dweud ei fod wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl, 19% yn dweud ei fod wedi effeithio ar eu hiechyd corfforol, 76% yn newid eu harferion prynu bwyd, a 23% yn benthyg mwy o arian[3].

Ochr yn ochr â'r cynnydd nodedig hwn mewn chwyddiant, bu toriad parhaus mewn termau real yng ngrym gwario awdurdodau lleol ledled Cymru. Adroddodd y Sefydliad Llywodraethu fod ffocws awdurdodau lleol ledled y DU wedi symud ers tro at oroesi'n ariannol, ar ôl bod yn torri gwasanaethau cyffredinol, ataliol ac anstatudol yn araf ers 2010[4]. Mae'r ffigwr isod yn dangos, fesul unigolyn, bod gwariant refeniw real gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau i fod yn is na lefel 2010/11 o dros 4%.

Ffigur 2.2: Newid termau real mewn gwariant refeniw y pen ymhlith awdurdodau lleol Cymru ers 2010




Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill o ddata Llywodraeth Cymru ar gyllidebau refeniw llywodraeth leol ac amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn.

Mae Cynghorau Cymuned a Thref yn aml yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf i'w preswylwyr, gan allu ymateb mewn modd cyflym a hyblyg i anghenion lleol. Mewn llawer o ardaloedd ledled Cymru, mae Cynghorau Cymuned a Thref wedi llenwi'r bwlch a grëwyd gan yr angen cynyddol am gymorth a gwasanaethau cyhoeddus sy'n crebachu, i ddarparu canolfannau clyd, gwasanaethau gofal plant, cynlluniau bwyd am ddim a chost isel a llawer o weithgareddau eraill sy'n diwallu anghenion lleol.

[3]Iechyd Cyhoeddus Cymru, Not enough for essentials as the cost of living crisis bites, Hydref 2023.
[4] Y Sefydliad Llywodraethu, Performance Tracker 2025: Local Government, Hydref 2025.

Yn 2023, sefydlodd Un Llais Cymru dîm costau byw i ymateb i anghenion ei aelodau am sgiliau ac adnoddau newydd i fynd i'r afael â'r heriau roedden nhw'n eu hwynebu yn eu cymunedau lleol. Nod y fenter hon oedd darparu adnoddau a hwyluso dysgu gan gymheiriaid er mwyn gwella gallu cyffredinol y sector i ddarparu gwell gwasanaethau angenrheidiol ledled Cymru.

# 3. Cyfanswm Effaith Gymdeithasol Cynghorau Cymuned a Thref

Bydd y bennod hon yn cyflwyno canlyniadau ein model effaith gymdeithasol gan ddefnyddio data a gasglwyd o'n harolwg o 237 o Gynghorau Cymuned a Thref, gan gyflwyno dadansoddiad o'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchwyd gan bob thema effaith a nodwyd, ac amcangyfrif cyffredinol o adenillion cymdeithasol y sector o fuddsoddi yn eu gweithgareddau costau byw. Mae'r bennod hon hefyd yn amlinellu'n gryno'r sampl sydd wedi'i chynnwys yn y model a sut y dylid dehongli'r canlyniadau.

## 3.1 Y sampl

Datblygwyd ein harolwg ar y cyd ag Un Llais Cymru, gyda'r nod o gasglu gwybodaeth feintiol yn ymwneud â mewnbynnau ac allbynnau gweithgareddau costau byw Cynghorau Cymuned a Thref. Wedyn roedd modd mewnbynnu'r data hwn i fframwaith adenillion cymdeithasol o fuddsoddi i amcangyfrif yr effaith gymdeithasol ariannol a gynhyrchir gan y gweithgareddau hyn. Mae ein nodyn technegol yn amlinellu'r dull dadansoddi a ddefnyddiwyd yn llawn.

Dosbarthwyd yr arolwg gan dîm prosiect Costau Byw Un Llais Cymru i'r 731 o Gynghorau Cymuned a Thref, gyda negeseuon atgoffa wythnosol i lenwi'r arolwg. Cawsom 237 o ymatebion a ddarparodd ddata digonol i'w gynnwys yn y model. Roedd y data a gasglwyd yn yr arolwg yn ymwneud â gweithgareddau costau byw a'r cymorth a gynigiwyd gan Un Llais Cymru i gynghorau.

Mae pwysau costau byw yn creu amrywiaeth o heriau sy'n amrywio o ardal i ardal ac yn gofyn am ymatebion amrywiol yn ôl yr hyn sydd fwyaf addas i'r ardal honno. I edrych ar hyn yn ein harolwg, gwnaethom ddadansoddi cofrestr Un Llais Cymru o'r gwaith a wnaed ar gostau byw gan Gynghorau Cymuned a Thref. Grwpiwyd y gweithgareddau'n wyth thema yn seiliedig ar eu heffeithiau cymdeithasol disgwyliedig. Caiff y themâu hyn eu cyflwyno yn y tabl isod:

| Thema effaith costau byw | Disgrifiad neu enghraifft | % o'n sampl sy'n cyflawni'r gweithgaredd hwn |
|---|---|---|
| Canolfannau clyd | Gofodau wedi'u gwresogi sy'n caniatáu i breswylwyr gymdeithasu ac arbed arian ar filiau gwresogi. | 31% |
| Gweithgareddau ieuenctid a gofal plant | Roedd hyn yn cynnwys clybiau ieuenctid, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau'r haf. | 25% |
| Gweithgareddau llesiant | Gweithgareddau grŵp i wella lles corfforol neu feddyliol megis ymarfer corff, teithiau cerdded ym myd natur, celf a chrefft neu glybiau ffilm. | 22% |


| Thema effaith costau byw | Disgrifiad neu enghraifft | % o'n sampl sy'n cyflawni'r gweithgaredd hwn |
|---|---|---|
| Mentrau bwyd | Gallai hyn gynnwys banciau bwyd, prydau bwyd am ddim, cynlluniau tyfu cymunedol neu bryd ar glud. | 22% |
| Cyngor am daliadau | Roedd hyn yn bennaf yn cynnwys gweithio gyda sefydliadau i ddarparu cyngor i bobl ar fudd-daliadau. | 23% |
| Grantiau | Arian sy'n cael ei ddyrannu'n uniongyrchol gan Gynghorau naill ai i grwpiau cymunedol neu i unigolion. | 6% |
| Trafnidiaeth gymunedol | Roedd hyn yn cynnwys bysiau cymunedol, cynlluniau gyrwyr gwirfoddol a chynlluniau i leihau prisiau tocynnau. | 6% |
| Cynhwysiant digidol, atgyweirio ac ailgylchu | Roedd hyn yn cynnwys cymorth i bobl wella eu sgiliau a'u hyder drwy ddefnyddio technoleg ddigidol. Roedd hefyd yn cynnwys atgyweirio ac ailgylchu technoleg drwy roddion. | 8% |

Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o Gynghorau Cymuned a Thref (N=237).

Ymhlith ein hymatebwyr, nododd 43% o'r cynghorau nad oeddent wedi darparu unrhyw weithgareddau costau byw. Roedd yr ymatebydd cyffredin a wnaeth gynnal gweithgareddau costau byw yn tueddu i gynnal rhwng dau a thri gweithgaredd (e.e. canolfan glyd a gweithgaredd llesiant), fodd bynnag, byddai hyn yn aml yn amrywio yn seiliedig ar faint praesept y cynghorau (gweler adran 4.1).

Mae Ffigur 3.1 yn rhoi dadansoddiad o gynnwys daearyddol ymatebwyr ein harolwg. Mae'r map yn dangos dosbarthiad cymharol dda o ymatebwyr, heb unrhyw ardaloedd daearyddol yn amlwg wedi'u heithrio o'r sampl. Mae'n bwysig nodi nad yw pob rhan o Gymru, yn enwedig ardaloedd trefol, yn cael eu cynrychioli gan Gyngor Cymuned neu Gyngor Tref.

<u>Ffigur 3.1: Map o ardaloedd ymatebwyr yr arolwg a'r astudiaethau achos</u>




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o Gynghorau Cymuned a Thref (N=237).

Gwnaethom wirio ein canfyddiadau rhagarweiniol drwy drafodaethau â staff Un Llais Cymru a nifer o randdeiliaid allanol yn ystod cyfweliadau'r ymchwil. Yn annibynnol ar ei gilydd, amcangyfrifodd y cyfranogwyr hyn fod oddeutu 150 i 200 o Gynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru yn mynd ati'n benodol i gynnal gweithgareddau ym maes costau byw. Yn seiliedig ar y ddealltwriaeth hon, ac o ystyried bod yr arolwg wedi'i ddosbarthu drwy rwydweithiau Un Llais Cymru, rydym yn amau ei bod yn debygol iawn bod ein sampl yn gogwyddo tuag at y cynghorau mwyaf gweithgar.

Yn sgil hyn, nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol i gyflwyno ein canlyniadau ar raddfa fwy i gynrychioli'r boblogaeth gyfan o 731 o gynghorau. Mewn gwirionedd, mae'n bosibl bod ein harolwg wedi dal cyfran sylweddol o gyfanswm gweithgarwch ac effaith y sector, er ei bod yn anodd cadarnhau hyn yn feintiol. Am y rheswm hwn, rydym yn adrodd yn unig ar y canlyniadau a ddangoswyd yn uniongyrchol drwy'r 237 o ymatebion yr arolwg, heb allosod i'r sector ehangach.

## 3.2 Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi ledled Cymru

Fframwaith yw Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi i fesur a chyfrif am y gwerth cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol ehangach sy’n cael eu creu gan ymyriad. Yn wahanol i ddadansoddiad cost a budd traddodiadol, mae Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi yn mynd y tu hwnt i fesurau ariannol i gynnwys canlyniadau sy'n bwysig i randdeiliaid, gan gynnwys gwelliannau o ran lles, cynhwysiant cymdeithasol, a gwytnwch cymunedol.

Caiff gwerth yr Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi ei fynegi fel cymhareb, sydd wedi’i gyfrifo drwy rannu cyfanswm gwerth yr effaith â chyfanswm gwerth y buddsoddiad. Mae'r holl ganlyniadau wedi'u rhagamcanu dros gyfnod o flwyddyn, sy'n golygu bod gwerth yr effaith yn cynrychioli'r gwerth presennol heb fod angen disgowntio.

$$\text{Cymhareb Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi} = \frac{\text{Cyfanswm Gwerth Presennol y Canlyniadau}}{\text{Cyfanswm y Mewnbynnau (Buddsoddiad)}}$$

Yn ein cyfrifiadau o'r effeithiau, rydym wedi pennu mai cyfanswm yr holl effeithiau yw **£25,966,475**. Dyma gyfanswm y gwerth a grëwyd gan holl weithgareddau'r Cynghorau Cymuned a Thref ar gostau byw, ac eithrio rhaglenni grantiau a thrafnidiaeth gymunedol.

Y Gwerth Presennol Net, sef Cyfanswm y Gwerth Presennol llai cyfanswm yr holl fewnbynnau (**£5,338,036**), yw **£20,628,438**. Mae'r swm hwn yn cynrychioli cyfanswm y gwerth ychwanegol a grëwyd gan Gynghorau Cymuned a Thref.

Mae hyn yn rhoi cymhareb Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi o **£25,966,475** / **£5,338,036** = **£4.86 : £1**. Mae hyn yn golygu bod gwerth cymdeithasol o **£4.86** yn cael ei greu am bob punt o fuddsoddiad mewn gweithgareddau Costau Byw.

## 3.3 Gwirfoddoli

Mae gweithgarwch gwirfoddoli sy’n cael ei alluogi gan Gynghorau Cymuned a Thref yn chwarae rhan arwyddocaol wrth alluogi'r ystod eang o weithgareddau Costau Byw sy’n cael eu disgrifio isod.

Oherwydd y ffordd y mae’r data wedi'i gasglu, mae gwirfoddoli wedi'i drin fel ffynhonnell ar wahân o werth cymdeithasol o fewn y model effaith. Roedd ymatebion yr arolwg yn cofnodi gweithgarwch gwirfoddoli ar lefel grynswth, yn hytrach na’i briodoli i fentrau unigol. O ganlyniad, dylid deall gwirfoddoli fel elfen o werth cymdeithasol sy'n ymestyn ar draws nifer o feysydd gweithgaredd, yn hytrach na chanlyniad sy'n gysylltiedig ag unrhyw un ymyriad.

At ddibenion y model effaith gymdeithasol, mae gwirfoddoli yn gysylltiedig â nifer o ganlyniadau sydd â thystiolaeth gadarn:

- Gwell lles unigol a synnwyr o bwrpas
- Gwell cysylltiadau cymdeithasol a llai o unigrwydd
- Datblygiad sgiliau, hyder a chyflogadwyedd.

Mae'r data a gasglwyd drwy'r arolwg yn dangos bod Cynghorau Cymuned a Thref wedi galluogi gweithgarwch gwirfoddoli sylweddol, gydag amcangyfrif o 2,300+ o wirfoddolwyr yn darparu cyfanswm o dros 169,000 o oriau o gymorth. Wrth ei werthuso gan ddefnyddio dirprwyon gwerth cymdeithasol safonol, amcangyfrifir bod y gweithgarwch gwirfoddoli hwn wedi cynhyrchu **£2,299,563 o werth cymdeithasol** i'r gwirfoddolwyr yn y flwyddyn ddiwethaf.

## 3.4 Canolfannau clyd

Mae canolfannau clyd wedi bod yn un o'r ymyriadau sydd wedi'u cysylltu amlaf â'r argyfwng costau byw, wrth i’r rhanddeiliaid ddweud bod y cyllid sydd ar gael gan gyrff sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddarparu'r canolfannau hyn wedi tyfu'n sylweddol ers 2022. Yng nghyd-destun costau cynyddol ac ynysigrwydd cymdeithasol cynyddol yn sgil pandemig Covid-19, mae'r gofodau hyn yn rhoi mynediad i breswylwyr at amgylchedd cynnes a chroesawgar a all fod yn borth i wasanaethau cymorth ehangach. Yn aml, Cynghorau Cymuned a Thref sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r gweithgarwch yma, gan eu bod yn gallu defnyddio gwybodaeth leol ac asedau cymunedol presennol fel neuaddau a chanolfannau cymunedol.

Canolfannau clyd oedd y gweithgaredd a gyflwynwyd amlaf gan y Cynghorau Cymuned a Thref hynny a ymatebodd i'n harolwg, gyda 31% yn dweud eu bod wedi cynnal un o'r canolfannau hyn. Dywedodd pedwar o bob pum awdurdod a ddarparodd ganolfan glyd eu bod yn cyfuno'r gweithgaredd â gwasanaethau eraill; y ddau wasanaeth mwyaf cyffredin a ddarparwyd ochr yn ochr â'r canolfannau clyd oedd prydau bwyd neu luniaeth am ddim a chyfeirio at wasanaethau lleol eraill, fel arfer gan yr awdurdod lleol.

Ar gyfer y model effaith gymdeithasol, rydym wedi canfod mai dyma’r effeithiau mwyaf cyffredin yr oedd y canolfannau clyd yn eu cael ar y mynychwyr:

- Arbedion ar gost gwresogi
- Llai o ynysigrwydd cymdeithasol
- Cyfeirio at wasanaethau perthnasol
- Darparu prydau bwyd am ddim.

Yn seiliedig ar ganlyniadau ein hymchwil, amcangyfrifir bod canolfannau clyd a ddarparwyd gan Gynghorau Cymuned a Thref wedi cynhyrchu gwerth cymdeithasol o **£3,270,836**.

## Astudiaeth Achos: Cyngor Tref Llanfair Caereinion

Mae Llanfair Caereinion yn dref wyth milltir i'r gorllewin o'r Trallwng yng ngogledd Powys. Mae’r cyngor tref yn gyfrifol am oddeutu 1,700 o drigolion, ac mae 800 ohonynt yn byw yng nghanol y dref. Mae llawer o drigolion lleol yn gweithio yn y sectorau manwerthu, addysg, amaethyddiaeth a thwristiaeth, ac mae’r sector twristiaeth yn benodol wedi'i ganoli o amgylch rheilffordd dreftadaeth sy'n denu 26,000 o ymwelwyr y flwyddyn ac sy'n cael ei gweithredu gan bron i 300 o wirfoddolwyr o bob cwr o'r Deyrnas Unedig.

Mae gan bron i un o bob pum anheddiad yn yr ardal leol un preswylydd, felly wrth i gyfyngiadau Covid-19 ledled Cymru lacio yn gynnar yn 2021 ac wrth i gyfraddau chwyddiant ddechrau codi, roedd llawer o sefydliadau cymunedol ar draws y dref wedi sylwi bod ynysigrwydd cymdeithasol a chostau gwresogi yn her fawr i garfan o breswylwyr ar draws y dref. Mae pum canolfan bellach yn gweithredu ar wahanol ddyddiau o'r wythnos, o'r eglwys, y llyfrgell, tafarn y Llew Du, y rheilffordd dreftadaeth a'r caffi cymunedol, ac yn cefnogi tua 30 o drigolion yn rheolaidd. Mae cyngor tref Llanfair Caereinion yn chwarae rhan hollbwysig wrth gefnogi nifer o'r canolfannau clyd hyn, drwy ddarparu'r gofod yn llyfrgell y dref ar gyfer un o'r canolfannau clyd a drwy ddarparu cymorth ariannol i bob canolfan pan fo angen.

Yn ogystal â chanolfannau clyd, mae Llanfair Caereinion wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau eraill i fynd i'r afael â heriau costau byw yn yr ardal leol, gan gynnwys gweithio gyda Chyngor Powys i sefydlu pum arosfan bws newydd yn y dref, yn ogystal â bysiau cynnar yn y bore a gyda'r nos i ganiatáu i drigolion gymudo ar fws i'w gwaith yn y Trallwng. Mae'r cyngor hefyd wedi sefydlu dau ased cymunedol hunangynhaliol, sef y caffi cymunedol a'r clwb ieuenctid. Wedi'i sefydlu yn 2023, mae'r caffi cymunedol yn cynnal digwyddiadau, yn darparu prydau poeth i drigolion lleol ac yn gweithredu fel un o'r canolfannau clyd yn y dref. Ar ôl blwyddyn o reolaeth gan y cyngor tref, llwyddodd y caffi i droi'n endid annibynnol sy’n rheoli’i hun ac mae’n darparu gwasanaethau pwysig i bobl leol yn Llanfair Caereinion.

Datblygwyd y cysyniad ar gyfer y clwb ieuenctid gan Fforwm Ieuenctid y cyngor fel rhan o'u 'Cynllun Ieuenctid ar gyfer Llanfair', ac mae bellach yn darparu gofod i 25-30 o bobl ifanc ar draws dau grŵp oedran. Mae'r cyngor yn parhau i ddarparu cymorth refeniw i'r clwb ieuenctid, gan alluogi'r clwb i barhau i ddarparu man diogel i bobl ifanc Llanfair gymdeithasu a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Maen nhw hefyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â chanolfannau clyd y dref, gan allu ymateb yn hyblyg i'w hanghenion wrth iddynt godi.

## Astudiaeth Achos: Cyngor Tref Hwlffordd

Hwlffordd yw'r ardal drefol fwyaf yn Sir Benfro, gyda phoblogaeth o tua 12,000 o bobl. Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Garth a'r Castell yn Hwlffordd ymhlith y deg uchaf o ran amddifadedd iechyd a chyflogaeth yn Sir Benfro.

Gan ymateb i'r heriau costau byw a welwyd yn eu hardal leol, trefnodd y cynghorwyr Randell Thomas-Turner a Dani Thomas-Turner ddigwyddiad 'bwydo'r ward' ar gyfer preswylwyr Ward y Castell yn Hwlffordd. Darparodd y digwyddiad cychwynnol brydau poeth i 47 o bobl a oedd yn bresennol; fe wnaeth ei lwyddiant ysgogi'r cyngor tref i fuddsoddi £850 arall o'u praesept i ehangu'r cynllun. Roedd y cynllun, a ailenwyd yn 'Bwydo'r Gymuned', yn cael ei gynnal unwaith y mis o'r HaverHub rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Mawrth 2026, gan ddarparu lle cynnes a phrydau poeth am ddim i drigolion a theuluoedd lleol, ac roedd ar agor rhwng 2:30yp a 5yp.

Gan ddefnyddio Bwydo'r Gymuned fel angor canolog, mae Cyngor Tref Hwlffordd wedi partneru ag amrywiaeth eang o sefydliadau i gynnig cymorth ychwanegol i'r teuluoedd a'r preswylwyr sy'n dod i'r digwyddiad. Ymhlith y partneriaid oedd yn bresennol roedd busnesau lleol, grwpiau ieuenctid, mudiadau gwirfoddol, grwpiau ffydd a thimau o'r awdurdod lleol. Roedd preswylwyr wedi mynegi i'r cyngor y gall yn aml fod yn heriol dod i gysylltiad â'r holl wasanaethau lleol y gallai fod angen mynediad atynt. Gweithredodd Bwydo'r Gymuned fel canolbwynt i bobl leol gael mynediad at y gwasanaethau canlynol:

- Bwyd poeth am ddim a phrydau maethlon y gallent fynd â nhw adref i'w hailgynhesu.
- Atgyweirio fframiau sbectol am ddim a chyngor ar ofal llygaid.
- Rhoddion o fwydydd di-ddarfodus, cynhyrchion mislif a theganau plant.
- Cyfeirio at dimau llywodraeth leol a mudiadau elusennol sy'n arbenigo mewn prentisiaethau, ynysigrwydd cymdeithasol, anghenion dysgu ychwanegol a thrafnidiaeth gymunedol.
- Torri gwallt am ddim gan farbwr lleol.

Gwnaeth y pum sesiwn ganlynol ddenu tua 60 o drigolion fesul digwyddiad, gan gostio tua £170 y sesiwn i dalu am logi'r lleoliad a chost y bwyd. Gan adeiladu ar lwyddiannau Bwydo'r Gymuned, mae enw newydd yn cael ei roi i'r digwyddiad: 'Cysylltu'r Gymuned'. A'r gwasanaeth wedi sicrhau cyllid 'canolfan glyd' a chwe mis o nawdd gan Specsavers, bydd Cysylltu'r Gymuned yn parhau i wasanaethu fel canolbwynt, gan ganiatáu i breswylwyr gysylltu â gwasanaethau cymunedol o un man hygyrch.

## Astudiaeth Achos: Cyngor Tref Trefynwy

Mae Cyngor Tref Trefynwy yn gwasanaethu tua 10,500 o drigolion ar draws pum ward, lle mae gwahanol lefelau o gyfle, cysylltedd a mynediad at wasanaethau yn llywio anghenion y gymuned. Mae yna batrwm hirdymor o oedolion iau yn gadael oherwydd pwysau tai a fforddiadwyedd—gan ddychwelyd yn aml yn ddiweddarach mewn bywyd—wedi'i gyfuno â thrigolion hŷn yn mudo i'r ardal yn arwain at boblogaeth hŷn sydd â chyfraddau uwch o gyflyrau iechyd hirdymor, risgiau o ynysigrwydd cymdeithasol a'r galw am gymorth llesiant. Mae eithrio digidol yn broblem ymhlith aelwydydd hŷn ac aelwydydd incwm isel. Yn economaidd, mae Trefynwy yn adlewyrchu cryfderau a bregusrwydd tref farchnad ar y ffin. Mae cysylltiadau trawsffiniol cryf a sector manwerthu a gwasanaethau cymunedol bywiog yn bodoli ar y cyd â swyddi cyflog isel, tymhorol ac ansicr, gan greu ansicrwydd ariannol yn ystod cyfnod o bwysau economaidd. Mae costau tai uchel a dewisiadau rhentu cyfyngedig yn dwysáu'r pwysau ar aelwydydd, gan olygu bod rhai preswylwyr yn sefydlog tra bod eraill yn wynebu mwy o risg o gostau byw cynyddol a'r arnynt angen cymorth cydgysylltiedig drwy gydol y flwyddyn. Wedi'i leoli wrth gymer afonydd Gwy Mynwy, mae'r dref yn wynebu risg nodedig o lifogydd, gyda nifer o gymunedau isel yn agored i niwed yn ystod glaw trwm.

Fe wnaeth argyfwng costau byw 2022 gynyddu caledi ymhlith preswylwyr a oedd eisoes yn agored i niwed a theuluoedd a gafodd eu heffeithio am y tro cyntaf. Fe wnaeth y llifogydd a achoswyd gan Storm Claudia ym mis Tachwedd 2025 gynyddu'r galw am leoedd cynnes ymhellach a chau lleoliadau allweddol dros dro, fel Tŷ Price a Chanolfan Gymunedol Bridges.

<u>Darpariaeth Mannau Cynnes Gydgysylltiedig</u>

Mae Grŵp Gweithredol Argyfwng Costau Byw'r cyngor (sef. 2022) yn cydlynu darpariaeth mannau cynnes drwy gysylltu cynigion cymunedol presennol, datblygu mannau newydd lle bo angen, a sicrhau mynediad wythnosol cyson. Caiff y ddarpariaeth ei hyrwydd drwy Facebook a thaflenni print, ac mae'r mannau'n cynnig lluniaeth am ddim, cysylltiad cymdeithasol, prydau poeth a chymorth ymarferol (WiFi, gwefru, papurau newydd). O 2022 hyd heddiw, mae preswylwyr wedi gallu cael mynediad at ddarpariaeth ddyddiol, gan gynnwys:

- Llyfrgell/Canolfan Trefynwy: papurau newydd dyddiol, WiFi, gwefru dyfeisiau yn ystod oriau agor.
- Yr Eglwys Fethodistaidd – Croeso Cynnes Wesley: diodydd poeth/prydau ysgafn, ddwywaith y dydd ar ddiwrnodau penodol.
- Cegin Gymunedol Sant Iago: pryd bwyd dau gwrs am ddim ar y 1af a'r 3ydd dydd Mercher (ar gau dros dro oherwydd llifogydd).
- Cwrdd a Bwyta Tŷ Price: bwyd am ddim i'w fwyta yno neu i fynd adref (ar gau dros dro oherwydd llifogydd).
- Cymdeithas Gristnogol Wyesham: sesiynau croeso cynnes rheolaidd.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cynorthwyo drwy gyfeirio ac mae wedi cymryd cyfrifoldeb am gynhyrchu taflenni'r mannau cynnes.

Mae'r rhwydwaith cydgysylltiedig o fannau cynnes wedi dod yn rhwyd ddiogel ddibynadwy, yn enwedig yn dilyn y llifogydd diweddar. Mae Cegin Gymunedol Sant Iago fel arfer yn denu tua 40 o bobl (gan gynnwys gwirfoddolwyr) ar gyfer ei chiniawau dydd Mercher, a hefyd wedi cynnal pryd bwyd ar Ddydd Nadolig i breswylwyr a fyddai fel arall wedi bod ar eu pen eu hunain neu'n ddibynnol ar y cynllun.

Mae darpariaeth y man cynnes hefyd wedi dangos hyblygrwydd a chymorth sy'n seiliedig ar urddas:

- Gall y preswylwyr fwyta yno neu fynd â bwyd adref, gan gynnwys un preswylydd sydd ag anghenion iechyd meddwl ac sy'n teimlo'n ddigon diogel i fynd yno ond y mae'n well ganddo fwyta gartref.
- Mae'r amgylchedd yn gynhwysol—e.e. roedd un o'r cyfranogwyr yn gallu dod â'i chi, a gafodd ei fwydo hefyd, ac yn gallu mynd â "bag ci" adref.
- Mae'r daflen mannau cynnes yn dangos maint a dibynadwyedd y ddarpariaeth, gyda nifer o opsiynau ar gael bob dydd, gan gynnwys prydau poeth, diodydd, WiFi, gwefru, papurau newydd a gweithgareddau cymdeithasol.

Rhaglen Grantiau Cymunedol

Mae Cyngor Tref Trefynwy yn defnyddio ei raglen grantiau cymunedol flynyddol o £25,000 i gefnogi mannau cynnes a grwpiau cymunedol eraill. Mae mentrau sy'n cael eu hariannu gan grantiau yn cynnwys y rhai sy'n darparu cymorth costau byw a chymorth yn ymwneud â mannau cynnes. Er enghraifft:

Grant o £4,000 ar gyfer prosiect Winter Tight yn Wyesham, gan ehangu'r ddarpariaeth o fannau cynnes mewn rhan fwy difreintiedig o'r dref.

Grant i lyfrgell y dref i ariannu mannau storio bwyd a diod yn eu mannau cynnes.

Cytundebau partneriaeth

Mae'r cyngor hefyd yn cynnal cytundebau partneriaeth aml-flwyddyn i sicrhau cyngor a gwasanaethau cymorth arbenigol yn y dref. Mae'r cytundebau hyn yn sicrhau mynediad sefydlog, drwy gydol y flwyddyn, at wasanaethau cymorth ariannol, iechyd meddwl a bwyd. Maen nhw'n cynnwys:

- Cyngor ar Bopeth Sir Fynwy – £20,000 yn flynyddol
- Mind Sir Fynwy (Mind yng Ngwent) – £15,000 yn flynyddol
- Oergell Gymunedol Trefynwy – £7,000 yn flynyddol

Mae cytundebau partneriaeth aml-flwyddyn yn creu rhwyd ddiogelwch ataliol a chydgysylltiedig, gan gryfhau gwytnwch cyffredinol Trefynwy yn ystod yr argyfwng costau byw.

Maen nhw'n sicrhau mynediad drwy gydol y flwyddyn at wasanaethau cymorth arbenigol ariannol, iechyd meddwl a bwyd, gan gynnwys:

- Mae Mind yng Ngwent yn darparu cymorth iechyd meddwl hanfodol sy'n helpu preswylwyr i ymdopi â'r straen a'r ansefydlogrwydd sy'n gysylltiedig â chostau byw cynyddol. Rhwng Ebrill a Medi 2025, fe wnaeth cyllid y cyngor alluogi Mind i gynorthwyo 60 o bobl, darparu 245 o sesiynau cymorth, a darparu 148 o sesiynau lles un-i-un i 30 o unigolion.
- Mae'r Oergell Gymunedol yn cryfhau diogelwch bwyd aelwydydd, gan ailddosbarthu bwyd diangen i'r rhai mewn angen. Mae cyllid blynyddol yn talu am y costau gweithredol craidd, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod ar gael hyd yn oed yn ystod cyfnodau o darfu. Yn dilyn y llifogydd, gwnaeth safle ategol yn St James, Wyesham, sicrhau bod preswylwyr na allent deithio yn dal i allu cael mynediad at fwyd am ddim.
- Mae Cyngor ar Bopeth Sir Fynwy (Trefynwy) yn sicrhau bod trigolion yn gallu cael mynediad at gyngor arbenigol drwy gydol y flwyddyn i sefydlogi eu sefyllfa ariannol yn ystod cyfnod o bwysau economaidd parhaus. Gwnaeth y sefydliad gynorthwyo 2,820 o bobl ar draws Sir Fynwy yn 2024–25, gan gynnwys 57% ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor — grwpiau sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan yr argyfwng costau byw. Arweiniodd hyn at ddatrys 1,525 o faterion budd-daliadau, 614 o faterion gwasanaethau ariannol a 449 o broblemau dyled. Fe wnaeth y sefydliad hefyd helpu i sicrhau £4.13m o incwm ychwanegol a dileu £340k o ddyled.

Bydd y Gweithgor Costau Byw yn parhau i:

- Cydlynu, cyfathrebu a chyfeirio at ddarpariaeth mannau cynnes.
- Defnyddi’r Rhaglen Grantiau Cymunedol i ymateb i anghenion costau byw sy'n dod i'r amlwg.
- Cynnal partneriaethau gyda Mind, Cyngor ar Bopeth Sir Fynwy (Trefynwy) a'r Oergell Gymunedol.

## 3.5 Gweithgareddau ieuenctid a gofal plant

Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n dod o dan y thema hon yn cynnwys clybiau ieuenctid, clybiau ar ôl ysgol neu glybiau gwyliau a gweithgareddau rheolaidd i blant fel clybiau celf neu chwaraeon. Mae'r gweithgareddau hyn yn aml yn chwarae rhan hollbwysig wrth leihau cost gofal plant, darparu amgylchedd cymdeithasol ac ysgogol i blant a phobl ifanc, ac mewn rhai achosion, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau. Mae ymchwil gan yr elusen plant Coram yn dangos, rhwng 2024 a 2025, bod cost gofal plant wedi cynyddu bron i 10%[5] ac mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos, er bod 130 yn fwy o glybiau ieuenctid yng Nghymru bellach ers ei bwynt isaf yn 2020, bod nifer y clybiau ieuenctid 31% yn is o hyd nag yr oedd yn 2010[6].

Gweithgareddau ieuenctid a gofal plant oedd yr ail fath mwyaf cyffredin o weithgaredd a gyflwynwyd gan y Cynghorau Cymuned a Thref a ymatebodd i'n harolwg, gyda 25% yn adrodd eu bod wedi cyflwyno gweithgaredd yn y thema hon. Nododd hanner y cynghorau a gyflwynodd y gweithgareddau hyn eu bod hefyd yn darparu prydau bwyd i'r plant sy'n mynychu eu gweithgareddau.

Ar gyfer y model effaith gymdeithasol, rydym wedi canfod mai dyma’r effeithiau mwyaf cyffredin yr oedd gweithgareddau ieuenctid a gofal plant yn eu cael ar y bobl ifanc:

- Cymorth i archwilio eu gwerthoedd, eu credoau, eu syniadau a'r materion sy'n bwysig iddynt
- Cyfle i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a'u hymdeimlad o le yn y gymdeithas.
- Datblygu sgiliau ymarferol a sgiliau bywyd sy'n eu helpu i wireddu eu llawn botensial
- Cymorth bwyd.

Yn seiliedig ar ganlyniadau ein hymchwil, amcangyfrifir bod gweithgareddau ieuenctid a gofal plant a ddarparwyd gan Gynghorau Cymuned a Thref wedi cynhyrchu gwerth cymdeithasol o **£16,541,219**. Nid yw hyn yn cynnwys effeithiau posibl ar rieni, gan nad oedd y data yn caniatáu i ni wahaniaethu rhwng oedran y bobl ifanc na gwybod pwy fyddai wedi bod angen gofal plant â thâl.

[5] Coram, Childcare Survey 2025, Mawrth 2025.
[6] Llywodraeth Cymru, Presenoldeb y Gwasanaeth Ieuenctid yn ôl Awdurdod Lleol a Math o Leoliad, 2025.

## Astudiaeth Achos: Cyngor Tref Blaenafon

Wedi'i lleoli yng ngogledd Torfaen ger tarddiad afon Llwyd, mae gan dref Blaenafon tua 6,000 o drigolion. Yn sgil hanes diwydiannol hir y dref fel canolbwynt ar gyfer glo a dur, fe'i henwebwyd fel Safle Treftadaeth y Byd UNESCO yn 2000, gydag atyniadau fel Gwaith Haearn Blaenafon a Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru.

Mae gan Flaenafon gyngor tref gweithgar sy'n gosod ei braesept blynyddol yn seiliedig ar y gweithgareddau yr hoffai eu darparu mewn tri maes blaenoriaeth: cynorthwyo'r boblogaeth dros 65 oed, cynorthwyo plant a phobl ifanc, a chynyddu ymwybyddiaeth y gymuned o weithgareddau a gwasanaethau lleol. Trwy ymgynghori'n helaeth ag aelodau o'r gymuned ac arolwg a ddosbarthwyd mewn ysgolion lleol, gwelodd y cyngor tref fod gwyliau'r haf yn gyfnod arbennig o heriol i rieni a phlant lleol oherwydd y baich cynyddol o ran costau gofal plant a bwyd. Ar adeg cynnal yr ymgynghoriadau yn 2019, roedd Blaenafon yn y chwarter uchaf o ran amddifaded addysg, iechyd ac incwm o blith Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Cymru.

Defnyddiodd cynghorwyr a staff Blaenafon eu cysylltiadau â Gwasanaeth Chwarae Torfaen i drefnu gwasanaeth a oedd yn ymateb i'r heriau a wynebai'r teuluoedd ym Mlaenafon. Mae cydweithrediad y cyngor â Gwasanaeth Chwarae Torfaen wedi parhau ers 7 mlynedd, gan ddarparu lleoliad gofal 5 diwrnod yr wythnos lle gall plant chwarae, cael brecwast a chinio maethlon am ddim, a chael cymorth gyda'u gwaith cartref. Yn ystod haf 2025 yn unig, defnyddiodd Cyngor Tref Blaenafon £11,600 i gynnal y gwersyll chwarae haf, gan ofalu am 120 o blant y dydd ar gyfartaledd, gan gynnwys naw o blant ag anghenion dysgu ychwanegol a gafodd gymorth un-i-un. Darparwyd dros 4,500 o brydau bwyd i blant dros gyfnod gwyliau'r haf gan y cynllun. Mae'r gefnogaeth hon wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i lawer o deuluoedd, gan gael gwared ar bwysau gofal plant, darparu prydau maethlon i'r plant a'u rhoi mewn amgylchedd ysgogol a hwyliog yn ystod y gwyliau.

Y tu hwnt i'w gweithgareddau ieuenctid, mae'r cyngor yn cynorthwyo ystod eang o weithgareddau eraill sy'n ceisio mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol a gwella iechyd y gymuned, fel Grŵp Ffitrwydd Mamau a Merched, Prynhawn Crefftau Blaenafon, teithiau teuluol yr oedd gofyn talu amdanynt i wahanol weithgareddau, neu Glwb Ffilm Cyfeillio sy'n denu 60 o drigolion y mis.

Mae cyngor tref Blaenafon yn ystyried mynd i'r afael â heriau costau byw fel elfen allweddol sy'n rhedeg drwy lawer o'u gweithgareddau. Gan adeiladu ar hyn, maen nhw'n ceisio cyngor gan Un Llais Cymru i ddatblygu partneriaeth gyda Chynghrair Gwirfoddoli Torfaen a'r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol i sefydlu cynllun trafnidiaeth gymunedol yn y dref.

## Astudiaeth Achos: Cyngor Cymuned y Mwmbwls

Mae Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn gwasanaethu cymuned arfordirol amrywiol yn Ninas a Sir Abertawe, gyda phoblogaeth o tua 16,000 o drigolion. Er bod yr ardal yn aml yn cael ei hystyried yn gymharol ffyniannus, mae amrywiaeth sylweddol rhwng cymdogaethau, gyda phocedi o amddifadedd wrth ymyl ardaloedd mwy ffyniannus.

Fel llawer o gymunedau, profodd y Mwmbwls hefyd effeithiau cymdeithasol sylweddol yn dilyn y pandemig. Gwnaeth cyfnodau estynedig o gyfyngiadau symud amlygu bylchau yng nghyfleoedd plant i gymdeithasu, ailadeiladu hyder a chael mynediad at weithgareddau cyfoethog y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Ar yr un pryd, roedd teuluoedd yn wynebu cynnydd mewn costau bwyd a mynediad cyfyngedig at weithgareddau fforddiadwy yn ystod y gwyliau, gan gynyddu'r pwysau ar gyllidebau aelwydydd yn ystod gwyliau'r ysgol. Gwnaeth cyfnodau clo estynedig amlygu bylchau yng nghyfleoedd plant i gymdeithasu, ailadeiladu hyder a chael mynediad at weithgareddau cyfoethog y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Ar yr un pryd, roedd teuluoedd yn wynebu cynnydd mewn costau bwyd a mynediad cyfyngedig at weithgareddau fforddiadwy yn ystod y gwyliau, gan gynyddu'r pwysau ar gyllidebau aelwydydd yn ystod gwyliau'r ysgol.

Nododd y cyngor set o heriau cymdeithasol ac economaidd cydgysylltiedig oedd yn effeithio ar deuluoedd yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd angen i blant gael cyfleoedd i ailadeiladu hyder cymdeithasol a rhyngweithio y tu hwnt i amgylchedd yr ysgol yn dilyn cyfnodau hir o ddiffyg cymdeithasu. Cydnabuwyd yn eang fod gwyliau ysgol yn her ariannol i lawer o deuluoedd, a allai fethu â fforddio gweithgareddau y byddai gofyn talu amdanynt neu ofal plant.

Roedd ansicrwydd bwyd hefyd yn bryder cynyddol, gyda rhai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd darparu prydau maethlon yn ystod gwyliau'r ysgol pan nad oedd prydau ysgol am ddim ar gael. Ochr yn ochr â hyn, câi ei gydnabod bod angen am weithgareddau cymunedol a allai leihau ynysigrwydd, cryfhau cysylltiadau lleol ac annog teuluoedd i dreulio amser gyda'i gilydd mewn mannau cyffredin.

Datblygwyd Dyddiau Hwyl Teuluol y Mwmbwls yn wreiddiol gan y cyngor cymuned fel menter i hybu adferiad cymdeithasol ymhlith plant yn dilyn pandemig COVID-19. Nawr yn ei bumed flwyddyn, mae'r rhaglen wedi esblygu i fod yn ddarpariaeth flynyddol sefydledig sy’n cael ei chynnal mewn partneriaeth ag Ysgol Gynradd Whitestone a chlwb ieuenctid Canolfan y Red Linden yn West Cross. Caiff y prosiect ei gefnogi gan siopau lleol, canolfannau chwaraeon a chymunedol lleol, y Community Fridge a gwirfoddolwyr cymunedol. Caiff y prosiect ei gefnogi gan siopau lleol, canolfannau chwaraeon a chymunedol lleol, yr Oergell Cymunedol a gwirfoddolwyr cymunedol.

Dyluniwyd y rhaglen yn fwriadol i gyd-fynd â gwyliau’r ysgol, fel hanner tymor Chwefror a gwyliau'r haf, pan fo costau adloniant a bwyd ar eu huchaf i deuluoedd. Dyluniodd y cyngor raglen am ddim o ansawdd uchel yn ystod y gwyliau a oedd yn cyfuno cymorth bwyd, cysylltiad cymdeithasol ac ymgysylltiad creadigol.

Mae elfennau allweddol y ddarpariaeth yn cynnwys:

- Cyllid wedi'i dargedu, a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Dinas Abertawe drwy ffrydiau cyllid Trechu Tlodi a COAST (Creu Cyfleoedd ar draws Abertawe Gyda'n Gilydd), gan alluogi i'r holl ddarpariaeth fod yn rhad ac am ddim i deuluoedd.
- Cyflawniad dan arweiniad partneriaeth, gan dynnu ar ysgolion, canolfannau cymunedol, busnesau lleol, timau chwaraeon a gwirfoddolwyr i ehangu capasiti a chyrhaeddiad.
- Sesiynau gweithgareddau am ddim, tua dwy awr o hyd fel arfer, yn cynnig celf a chrefft, chwarae â chlai, gweithdai creadigol a gweithgareddau dan arweiniad athrawon sy'n addas ar gyfer gwahanol oedran.-
- Cymorth maethol, gyda phob plentyn yn derbyn byrbrydau am ddim a chinio am ddim, gan sicrhau cynhwysiant llawn heb stigma.
- Cynaliadwyedd a lles amgylcheddol, dan arweiniad Swyddog Ymgysylltu Amgylcheddol, gyda gweithgareddau fel plannu hadau, bomiau hadau a helfeydd "bwystfilod bach" wedi'u hymgorffori yn y rhaglen.

Mae Dyddiau Hwyl Teuluol y Mwmbwls bellach yn chwarae rhan ganolog wrth gefnogi teuluoedd yn ystod gwyliau'r ysgol. Yn y flwyddyn flaenorol, cynorthwyodd y rhaglen 1,490 o deuluoedd, gan ddangos cyrhaeddiad sylweddol a galw parhaus.

Mae'r fenter hefyd wedi cryfhau cydlyniad cymunedol. Mae'r Dyddiau Hwyl yn cael eu disgrifio'n gyffredin fel rhan o "wead cymuned y Mwmbwls," gyda rhai teuluoedd yn mynychu'n rheolaidd ers 2021 tra bod cyfranogwyr newydd yn parhau i ymuno bob blwyddyn. Mae'r rhieni'n cyfeirio at les teuluol gwell, gan fynegi balchder yn ngwaith creadigol eu plant a gwerthfawrogi cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau o ansawdd uchel sy'n galluogi perthnasau a ffrindiau i gymdeithasu gyda'i gilydd.

Mae rhieni'n dweud bod plant yn elwa o ddatblygiad cymdeithasol gwell, gyda chyfleoedd i gymysgu â'u cyfoedion y tu allan i amgylchedd eu hysgol eu hunain, gan helpu i ailadeiladu hyder ar ôl y pandemig a meithrin cysylltiad o fewn y gymuned ehangach. Mae'r cyngor yn bwriadu parhau i wneud cais am gyllid wedi'i dargedu i gynnal y ddarpariaeth.

## 3.6 Gweithgareddau llesiant

Mae'r thema hon yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau sy'n ymwneud â gwella llesiant meddyliol a chorfforol preswylwyr ardaloedd y cynghorau. Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae'r argyfwng costau byw wedi cael effaith negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol cyfran fawr o bobl ledled Cymru. Mae Cynghorau Cymuned a Thref wedi ymateb i hyn drwy gyflwyno gweithgareddau sy'n anelu at leihau ynysigrwydd cymdeithasol, dysgu sgiliau, gwella ffitrwydd a chreu ymdeimlad o ysbryd cymunedol.

Roedd gweithgareddau â'r nod o hybu lles pobl yn cael eu darparu gan 22% o'r cynghorau a ymatebodd i'n harolwg. Yr enghreifftiau mwyaf cyffredin o weithgareddau lles ymhlith ymatebwyr ein harolwg oedd grwpiau ffitrwydd (gan gynnwys dawns, aerobeg, ioga, pilates a gwersi nofio), grwpiau celf a chrefft, grwpiau cerdded yn y goedwig neu ar lwybrau troed, gweithgareddau addysgol (fel ysgolion coedwig, teithiau hanes lleol, a chyrsiau hyfforddi) a chlybiau ffilm neu theatr. Roedd gweithgareddau untro, yn enwedig i deuluoedd, fel gwyliau lleol, tân gwyllt a digwyddiadau yn ystod y gwyliau hefyd yn gyffredin. Roedd y mwyafrif helaeth o'r digwyddiadau hyn am ddim i'r cyfranogwyr ac yn canolbwyntio ar ddarparu cyswllt cymdeithasol a phrofiadau i bobl na fyddent fel arall yn gallu eu fforddio.

Ar gyfer y model effaith gymdeithasol, rydym wedi canfod mai dyma'r effeithiau mwyaf cyffredin yr oedd y gweithgareddau llesiant yn eu cael ar y mynychwyr:

- Gwell lles o fynychu'n rheolaidd
- Hapusrwydd.

Yn seiliedig ar ganlyniadau ein hymchwil, amcangyfrifir bod gweithgareddau lles a ddarparwyd gan Gynghorau Cymuned a Thref wedi cynhyrchu gwerth cymdeithasol o **£1,940,890**.

## Astudiaeth Achos: Cyngor Cymuned Prestatyn

Sefydlwyd menter Singing Strummers i gefnogi llesiant cymuned Prestatyn yn ystod yr Argyfwng Costau Byw. Amcangyfrifir bod 19,278 o bobl yn byw yn y gymuned, gyda bron i draean ohonynt (29.1%) yn 65 oed a hŷn, o gymharu â dim ond 21.7% ar draws Cymru. Mae'r rhan fwyaf o gymdogaethau yn Prestatyn hefyd yn ymhlith hanner uchaf yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae'r prosiect yn darparu sesiynau canu grŵp i godi'r galon, gyda chyfeiliant gan offerynnau fel iwcalilis a gitarau, gan greu amgylchedd cerddorol hamddenol a chynhwysol i gyfranogwyr o bob gallu. Caiff y sesiynau eu cyflwyno gan Gyngor Tref Prestatyn yn Siambrau'r Cyngor, wedi'u darparu mewn partneriaeth â Mind, a'u hariannu drwy grant cymunedol. Mae'r cyllid hwn yn sicrhau bod y sesiynau am ddim ac yn agored i bawb.

Un o gryfderau allweddol prosiect Singing Strummers yw ei awyrgylch groesawgar ac anffurfiol. Disgrifiodd yr arweinydd cerddorol Lee Davis y sesiynau fel rhai cyfeillgar, cefnogol a chynhwysol:

Mae'n awyrgylch ac amgylchedd mor hawdd i fod ynddo. Rydyn ni i gyd fel un teulu mawr. Rydyn ni'n gwneud hwyl am ben ein gilydd – mae'n llawer o hwyl a chwerthin ac mae'n gwneud lles i'w hiechyd meddwl; mae'n beth anhygoel, dweud y gwir.

Mae'r sesiynau'n defnyddio pŵer cerddoriaeth i helpu'r cyfranogwyr i ymlacio, hel atgofion, mynegi eu hunain, a mwynhau profiadau gyda'i gilydd.

Amlygodd y cyfranogwyr yr effaith gadarnhaol y mae'r prosiect yn ei chael ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Disgrifiodd nifer sut mae'r sesiynau'n eu helpu i ymdopi â straen personol, gwella eu hwyliau, a lleihau teimladau o ynysigrwydd drwy gysylltu ag eraill mewn fel rhan o grŵp cefnogol. Rhannodd un cyfranogwr:

Mae'n fy helpu i ymdopi â fy straen. Rwy wedi cael canser a phethau fel 'na, ac mae'n dda i chi. Mae pawb mor gyfeillgar. Mae angen arnon ni i gyd i fod yn rhan o'r grŵp, ac rwy'n mwynhau canu.

Cyfeiriodd un o wirfoddolwr Singing Strummers at fanteision cymryd rhan, nid yn unig i'r cyfranogwyr, ond hefyd i'r rhai sy'n helpu i gyflawni'r prosiect:
Mae'n hwyl a sbri, ac rydych chi'n cael cwrdd â phobl mor amrywiol o bob cefndir a phrofiad. Mae'n eich tynnu i ffwrdd o straen bob dydd a newyddion drwg ar y teledu, sy'n beth da. Ac wrth gwrs, mae'r canu a'r gerddoriaeth yn hwb i'r ysbryd.

## 3.7 Mentrau bwyd

Mae mentrau bwyd yn cynnwys ystod eang o ymyriadau, a’r cyfan yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi bwyd, gan gynnwys banciau bwyd, pantrïau cymunedol, clybiau brecwast a chinio am ddim, a mentrau i dyfu a dosbarthu ffrwythau a llysiau. Adroddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod chwyddiant bwyd a diodydd di-alcohol wedi codi 4%, sy'n uwch na'r 3.8% o chwyddiant cyffredinol. Mae ymchwil gan Ymddiriedolaeth Trussel yn dangos bod y galw am barseli bwyd yn benodol yn parhau'n uchel, gyda thlodi bwyd yng Nghymru yn arbennig o amlwg ymhlith teuluoedd â thri o blant neu fwy[7].

Nododd ychydig dros un o bob pum cyngor a ymatebodd i'n harolwg (22%) eu bod yn darparu rhyw fath o fenter fwyd. Mewn llawer o achosion, cafodd mentrau bwyd eu darparu mewn partneriaeth â banciau bwyd lleol, grwpiau cymunedol presennol neu siopau ac archfarchnadoedd.

Ar gyfer y model effaith gymdeithasol, rydym wedi canfod mai dyma’r effeithiau mwyaf cyffredin yr oedd y mentrau bwyd yn eu cael ar y mynychwyr:

- Mynediad at fwyd maethlon
- Gwell iechyd corfforol a meddyliol
- Manteision addysgol a chymdeithasol
- Arbed costau ar siopa bwyd
- Pryd o fwyd am ddim.

Yn seiliedig ar ganlyniadau ein hymchwil, amcangyfrifir bod mentrau bwyd a ddarparwyd gan Gynghorau Cymuned a Thref wedi cynhyrchu gwerth cymdeithasol o **£717,553**. Amcangyfrifir i dros 132,200 o brydau o fwyd gael eu dosbarthu drwy fentrau cymorth bwyd gan gynghorau cymuned a thref.

[7] Ymddiriedolaeth Trussel, Emergency food parcel distribution in Wales, Mawrth 2024.

## Astudiaeth Achos: Cyngor Cymuned Aberporth

Mae Cyngor Cymuned Aberporth yn gwasanaethu pedwar pentref: Aberporth, Parcllyn, Blaenannerch a Blaenporth. Mae gan y gymuned oddeutu 2,183 o breswylwyr ar draws 1,563 o aelwydydd. Mae'r ardal yn wledig ac yn arfordirol, gydag economi leol sy'n hynod dymhorol ac wedi'i dylanwadu gan dwristiaeth ac ail gartrefi.

Yn ystod misoedd yr haf mae'r boblogaeth yn cynyddu oherwydd ymwelwyr, tra y tu allan i'r tymor brig mae busnesau lleol yn dibynnu'n bennaf ar drigolion parhaol. Mae patrymau cyflogaeth yn adlewyrchu'r natur dymhorol hon, gyda rhai preswylwyr yn gweithio'n ddwys am ran o'r flwyddyn ac yn ennill incwm is yn ystod misoedd y gaeaf.

Mae anghydraddoldeb i'w weld yn yr ardal hefyd o ran incwm ac amodau byw ar draws y gymuned. Ochr yn ochr â phreswylwyr hŷn cymharol gefnog a pherchnogion ail gartrefi, mae yna deuluoedd iau sy'n wynebu pwysau tai a chostau. Mae rhannau o'r ardal o fewn dalgylchoedd Dechrau'n Deg[8], sy'n dynodi pocedi o amddifadedd nad ydynt bob amser yn weladwy.

Ers 2020, mae'r argyfwng costau byw wedi cael effaith anghymesur ar rai teuluoedd yn y gymuned. Er bod llawer o aelwydydd yn ymdopi heb gymorth ffurfiol, mae'r rheini sy'n profi caledi ariannol yn aml yn wynebu heriau difrifol, yn enwedig yn ystod gwyliau'r ysgol pan fo mynediad at brydau ysgol am ddim a darpariaeth brecwast wedi'i leihau.
Daeth y Cyngor Cymuned yn fwyfwy ymwybodol o'r pwysau hyn drwy sawl sianel. Drwy gweithgarwch ymgynghori yn ymwneud â gosod cyllideb y cyngor yn gynnar yn 2025, daeth blaenoriaethau a phryderon y gymuned i'r amlwg. At hynny, roedd yr arfer o weithio mewn partneriaeth â neuadd y pentref, sy'n darparu prosiect "Calon y Gymuned" gan gynnwys clybiau cinio, canolfan glyd ac oergell gymunedol, hefyd yn rhoi cipolwg ar anghenion newydd o ran ansicrwydd bwyd. Yn olaf, tynnwyd sylw at y pryderon hyn gan ysgolion lleol yn yr ardal - er bod pob disgybl ysgol gynradd yn derbyn prydau ysgol am ddim, roedd mynediad at frecwast a bwyd fforddiadwy yn ystod gwyliau yn parhau i fod yn broblem. Gwnaeth y dystiolaeth hon annog y cyngor i ystyried darpariaeth bwyd wedi'i thargedu yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mewn ymateb, sicrhaodd Cyngor Cymuned Aberporth £2,000 o gyllid gan Bartneriaeth Bwyd Ceredigion i ddarparu Clwb Brecwast Teuluol yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd y prosiect yn darparu brecwastau wythnosol am ddim i deuluoedd, ochr yn ochr â gweithgareddau crefft a phecynnau ffrwythau a llysiau i fynd adref, er mwyn gwneud bwyd yn fwy hygyrch y tu hwnt i'r sesiwn ei hun.
Yn ystod y cyfnod cyflawni, llwyddodd y prosiect i gyflawni'r canlynol:

- Darparwyd 140+ o frecwastau iach
- Dosbarthwyd 83 o becynnau ffrwythau a llysiau ffres
- Rhaglen o grefftau, sesiynau chwarae a gweithgareddau awyr agored i blant

[8] Dechrau'n Deg, Cyngor Sir Ceredigion

Cynhaliwyd sesiynau yn Neuadd Bentref Aberporth, ar y cyd â'r Oergell Gymunedol, gan alluogi i fwyd dros ben i gael ei ailddosbarthu a lleihau faint o wastraff bwyd sy’n mynd i safleoedd tirlenwi. Roedd y prosiect hefyd yn cysylltu â Dillad Dwywaith i wneud dillad ail-law yn fwy hygyrch i deuluoedd.

Lansiwyd y gweithgaredd ddechrau 2025, yn dilyn digwyddiad bwyd cymunedol llwyddiannus yn y Flwyddyn Newydd, a pharhaodd y ddarpariaeth tan ddiwedd gwanwyn / dechrau haf 2025. Dros amser, esblygodd y rhaglen i gynnwys sesiynau chwarae yn yr awyr agored, plannu perlysiau, helfeydd trychfilod, creu blychau bwydo adar a gweithgareddau dan do, gan helpu i ddenu teuluoedd ac annog ymgysylltiad hirach a hybu rhyngweithio cymdeithasol.

Cefnogwyd y ddarpariaeth gan wirfoddolwyr o’r Cyngor Cymuned a Neuadd y Pentref.

Gwnaeth y Clwb Brecwast Teuluol gynorthwyo oddeutu 15 o deuluoedd fesul sesiwn, gyda 30–35 o blant yn bresennol bob wythnos. Er bod hyn ychydig yn is na'r disgwyliadau cychwynnol, roedd yn cyfleu ymgysylltiad ystyrlon gan y teuluoedd sydd â’r angen mwyaf. Gwelwyd mai plant oedd y prif fuddiolwyr.

Darparodd y gweithgaredd fynediad rheolaidd at fwyd maethlon yn ystod gwyliau'r ysgol, gan leihau'r pwysau ar gyllidebau bwyd aelwydydd. Y tu hwnt i ddarparu bwyd, creodd y sesiynau le diogel, croesawgar i blant gymdeithasu, cymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig, a threulio amser yn yr awyr agored.

Er mai unwaith yr wythnos y cynhaliwyd y sesiynau, roedden nhw'n gynnig man angori pwysig i deuluoedd ac yn helpu i leihau ynysigrwydd, yn enwedig mewn ardal wledig lle gall mynediad at drafnidiaeth a gwasanaethau fod yn brin.

Wrth edrych ymlaen, mae'r Cyngor Cymuned yn ystyried cyfleoedd i barhau ac ehangu'r rhaglen yn y flwyddyn ariannol nesaf, gan gynnwys darpariaeth yn ystod hanner tymor mis Chwefror. Mae trafodaethau hefyd ar y gweill gyda Phartneriaeth Bwyd Ceredigion i ddatblygu marchnad ffrwythau a llysiau lleol, gan wneud cynnyrch fforddiadwy o ffynonellau lleol yn fwy hygyrch i'r gymuned ehangach.

Byddai'r fenter hon yn ymateb yn uniongyrchol i'r bylchau a nodwyd o ran mynediad at fwyd ffres, a gallai ymestyn y buddion y tu hwnt i deuluoedd i breswylwyr hŷn a grwpiau bregus eraill.

Fodd bynnag, mae capasiti’r gwirfoddolwyr yn parhau i fod yn ffactor sy’n cyfyngu ar brosiectau arfaethedig, gan ystyried bod y Cyngor Cymuned yn dibynnu ar nifer fach o gynghorwyr. Mae gweithio mewn partneriaeth gyda Neuadd y Pentref wedi helpu i fynd i'r afael â hyn drwy ddarparu mynediad at wirfoddolwyr ychwanegol a chymorth gweithredol, er y bydd pa mor gynaliadwy yw’r cynlluniau yn y dyfodol yn dibynnu ar dderbyn cyllid parhaus, bod gwirfoddolwyr ar gael ac ar barhau â threfniadau partneriaeth o fewn y gymuned.

## Astudiaeth Achos: Cyngor Tref y Trallwng

Mae’r Trallwng yn dref farchnad fechan sy'n gwasanaethu ei phoblogaeth breswyl a'r cymunedau gwledig cyfagos. Mae ardaloedd gwledig yng Nghymru yn wynebu heriau penodol sy'n gysylltiedig â mynediad at fwyd, gan gynnwys rhwystrau trafnidiaeth a llai o wasanaethau lleol, ynghyd â chostau byw cynyddol ac incwm isel neu sefydlog.

Mae Cyngor Tref y Trallwng yn chwarae rhan weithredol wrth gynorthwyo gwasanaethau cymunedol, gan weithio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr, busnesau lleol a grwpiau cymunedol i ddarparu cymorth ymarferol. Mae'r gwasanaethau hyn wedi dod yn fwyfwy pwysig wrth i'r galw am gymorth bwyd, mannau cynnes a chyswllt cymdeithasol gynyddu yn dilyn y pandemig a'r argyfwng costau byw.

Yn y Trallwng, nodwyd bod preswylwyr hŷn, pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain, ac unigolion ag anableddau yn arbennig o fregus yn wyneb ansicrwydd bwyd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Gwnaeth y pandemig hefyd amlygu bylchau mewn rhwydweithiau cymorth anffurfiol, gan gynyddu'r risg o ynysigrwydd ymhlith preswylwyr heb lawer o symudedd neu gyswllt cymdeithasol.

Mewn ymateb, ceisiodd cynghorwyr a gwirfoddolwyr ehangu gwasanaethau presennol a datblygu mentrau newydd a oedd yn cyfuno cymorth bwyd uniongyrchol â chyfleoedd ar gyfer cyswllt cymdeithasol. Mae Cyngor Tref y Trallwng yn cynorthwyo amrywiaeth o fentrau costau byw, sy’n cael eu darparu drwy wasanaethau'r cyngor a phrosiectau dan arweiniad cynghorwyr. Mae’r rhain yn cyd-fynd â'r dulliau a welir ar draws Cynghorau Cymuned a Thref eraill yng Nghymru, fel darparu prydau bwyd, cynlluniau rhannu bwyd a modelau cymorth cymunedol. Mae’r rhain wedi’u hamlinellu isod:

<u>Hwb Cymunedol (Canolfan Glyd gynt)</u>

Sefydlwyd yr Hwb Cymunedol ym mis Hydref 2022 gan y Cynghorydd Nick Hows, fel Canolfan Glyd i gychwyn mewn ymateb i heriau yn dilyn y pandemig a chostau cynyddol i aelwydydd. Mae'n gweithredu o adeiladau'r cyngor sy’n cael eu darparu’n rhad ac am ddim ac mae'n hunangynhaliol yn ariannol, gan ddibynnu ar roddion gan archfarchnadoedd, busnesau lleol, grwpiau cymunedol a phreswylwyr.

Mae'r ddarpariaeth fwyd yn cynnwys prydau poeth fel tatws pob gyda llenwadau, brechdanau wedi'u tostio a chawliau. Daeth yr holl offer, gan gynnwys meicrodonau, peiriannau panini a thegellau cawl, o roddion gan y cyhoedd yn dilyn sawl apêl lleol. Derbyniwyd rhoddion ariannol ychwanegol gan sefydliadau cymunedol, gan gynnwys Seiri Rhyddion lleol.

Ers hynny, mae'r ganolfan wedi datblygu'n Hwb Cymunedol ehangach, gan ddarparu bwyd a chyswllt cymdeithasol. Mae’r preswylwyr yn dod nid yn unig i gael prydau bwyd a chynhesrwydd, ond hefyd i gael cwmni a chefnogaeth anffurfiol. Mae'r ganolfan hefyd yn darparu cyfleoedd i gyfeirio preswylwyr at wasanaethau eraill fel Cyngor ar Bopeth ac asiantaethau statudol.

Mae nifer y mynychwyr wedi cynyddu dros amser, gyda dros 80 o bobl yn bresennol ar un diwrnod yn ystod cyfnodau brig.

Pryd ar Glud
Mae Pryd ar Glud wedi bod yn gweithredu yn y Trallwng ers dros 60 mlynedd a Chyngor Tref y Trallwng sy'n berchen arno ac yn ei redeg. Mae'r gwasanaeth yn weithredol bum diwrnod yr wythnos, gan ddosbarthu tua 80 o brydau bwyd yn wythnosol, a 30 pryd arall yn cael eu gweini ar y safle.

Mae tua 15 o wirfoddolwyr yn helpu i baratoi a dosbarthu bwyd. Mae offer fel rhewgelloedd ac offer arlwyo wedi'u rhoi gan fusnesau a gwirfoddolwyr lleol, gan helpu i gynnal capasiti'r gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi preswylwyr sy'n oedrannus, yn anabl neu'n methu â pharatoi eu prydau bwyd eu hunain. I rai o'r derbynwyr, y gwirfoddolwyr yw'r unig bobl y maent yn eu gweld yn ystod y dydd, gan ddarparu cymorth maethol a chyswllt lles anffurfiol.

Cynllun Rhoi a Derbyn
Sefydlwyd y cynllun Rhoi a Derbyn gan y Cynghorydd Carol Robinson mewn ymateb i'r argyfwng costau byw. Mae'r cynllun yn gweithredu'n dymhorol o fis Gorffennaf i ddechrau'r hydref ac yn darparu ffrwythau a llysiau am ddim i breswylwyr.

Caiff y cynnyrch eu roi gan dyfwyr a thrigolion lleol, ar ôl hyrwyddo'r cynllun drwy'r cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithiau cymunedol. Cynyddodd nifer y rhoddion a nifer y cyfranogwyr dros gyfnod yr haf wrth i ymwybyddiaeth gynyddu.

Mae'r cynllun hefyd yn rhoi cyfleoedd i gynnal sgyrsiau anffurfiol gyda thrigolion a allai fod yn wynebu anawsterau ehangach, gan gynnig pwynt cyswllt a chefnogaeth gymunedol ychwanegol. Mae'r dull hwn o weithredu yn cyd-fynd â modelau rhannu bwyd ac ailddosbarthu bwys dros ben sy'n cael eu hybu gan Gynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru i leihau gwastraff a gwneud bwyd fforddiadwy yn fwy hygyrch.
Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn yn darparu cymorth i breswylwyr sy'n wynebu ansicrwydd bwyd, pwysau ariannol ac ynysigrwydd cymdeithasol.

- Mae'r Hwb Cymunedol yn cynnig mynediad rheolaidd at fwyd poeth, cynhesrwydd a chyswllt cymdeithasol, ac mae'r niferoedd uchel o bobl sy'n mynychu yn dangos bod yna alw lleol parhaus.
- Mae Pryd ar Glud yn sicrhau mynediad cyson at brydau maethlon i breswylwyr sy'n methu â choginio iddyn nhw eu hunain, ac mae hefyd yn darparu cyswllt lles rheolaidd.
- Mae'r cynllun Rhoi a Derbyn yn golygu bod cynnyrch ffres yn fwy hygyrch yn ystod misoedd brig y tymor tyfu ac yn cynorthwyo aelwydydd sy'n wynebu pwysau bwyd tymor byr.

Adroddodd gwirfoddolwyr fod rhai preswylwyr wedi disgrifio'r gwasanaethau fel "achubiaeth", yn enwedig y rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain neu sydd â symudedd cyfyngedig. Mae'r cyfuniad o ddarpariaeth bwyd a rhyngweithio cymdeithasol yn hybu llesiant, yn ogystal â mynd i'r afael â phwysau uniongyrchol costau byw.

"Heb y Pantri, wn i ddim sut y byddwn i'n ymdopi - mae'n achubiaeth."

Mae'r canlyniadau hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth ehangach y gall mentrau dan arweiniad Cynghorau Cymuned a Thref leihau ynysigrwydd, gwneud bwyd yn fwy hygyrch a chryfhau gwytnwch cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. [9]

## 3.8 Cyngor a chymorth ynghylch taliadau

Hwyluso'r gweithgarwch hwn a wna Cynghorau Cymuned a Thref yn bennaf yn hytrach na'i ddarparu'n uniongyrchol eu hunain. Caiff hyn ei wneud naill ai drwy ddarparu lle i sefydliadau gynnig cyngor ynghylch cyllid a budd-daliadau neu drwy gyfeirio pobl at y gwasanaethau hyn wrth eu cynnwys mewn gweithgareddau eraill fel canolfannau clyd neu weithgareddau llesiant. Gwnaeth ymchwil Policy in Practice yn 2024 amcangyfrif bod £23 biliwn o gymorth heb ei hawlio ar draws y DU[10], a'r prif ffynonellau oedd credyd cynhwysol a chymorth treth gyngor. Mae llawer o rwystrau i unigolion sy'n ceisio derbyn eu hawliadau budd-daliadau, gan gynnwys bylchau mewn gwybodaeth, stigma cymdeithasol a chymhlethdod y ceisiadau; gallai fod yn bosibl i gynghorau weithredu fel cyfryngwr i sicrhau bod pobl yn cael eu cysylltu â sefydliadau sy'n gallu darparu'r cymorth gorau.

Dywedodd ychydig yn llai na chwarter y cynghorau a ymatebodd i'n harolwg (23%) eu bod yn cynorthwyo'r math hwn o wasanaeth mewn rhyw ffordd. Roedd tri chwarter o'r cynghorau hyn yn gwneud hynny drwy bartneriaeth â sefydliad arall, a'r cydweithrediad mwyaf cyffredin o bell ffordd oedd â Chyngor ar Bopeth a staff yr awdurdod lleol.

Ar gyfer y model effaith gymdeithasol, rydym wedi canfod mai dyma'r effeithiau mwyaf cyffredin yr oedd y cyngor a chymorth ynghylch taliadau yn eu cael ar y derbynwyr:

- Cynnydd mewn incwm
- Llai o orbryder
- Yn fwy cadarnhaol am y dyfodol
- Wedi'u grymuso
- Sgiliau ariannol gwell
- Cyfeirio at wasanaethau perthnasol.

Yn seiliedig ar ganlyniadau ein hymchwil, amcangyfrifir bod cyngor a chymorth ynghylch taliadau a hwyluswyd gan Gynghorau Cymuned a Thref wedi cynhyrchu gwerth cymdeithasol o **£1,115,541**.

[9] Papargyropoulou et al, Impact of food hubs on food security and sustainability, 2024.
[10] Policy in Practice, Missing Out 2024.

### Astudiaeth Achos: Cyngor Cymuned Parc Caia

Mae Cyngor Cymuned Parc Caia yn cynnwys tua 13,000 o drigolion ar draws dwyrain dinas Wrecsam, sy'n golygu mai dyma un o'r deg Cyngor Cymuned neu Dref mwyaf yng Ngogledd Cymru. Mae gan y Cyngor hanes o dros 20 mlynedd o ddarparu gweithgareddau costau byw i'w preswylwyr, ar ôl nodi heriau sy'n gysylltiedig ag incwm isel, dyledion a diffyg mynediad digidol. Mae wardiau Queensway a Wynnstay ymhlith y 10% sydd â'r incwm isaf i blant yng Nghymru.

Mewn ymateb i hyn, mae Cyngor Parc Caia ers tro wedi cynorthwyo tîm bach o weithwyr cynghori sy'n darparu cyngor diduedd a chyfrinachol i breswylwyr Parc Caia a'r ardaloedd cyfagos yn Wrecsam. Mae'r tîm yn cynorthwyo ar-lein ac wyneb yn wyneb ynghylch ystod o faterion gan gynnwys budd-daliadau lles, dyled, tai, hawliau defnyddwyr a Chredyd Cynhwysol. At hynny, gall y tîm roi talebau banc bwyd i breswylwyr cymwys a'u cynrychioli mewn tribiwnlysoedd. Mae tîm cynghori Parc Caia hefyd yn rhwydweithio'n dda â gwasanaethau eraill gan gynnwys Cyngor ar Bopeth, Shelter Cymru, Banc Bwyd Wrecsam a swyddfeydd tai lleol, sy'n eu galluogi i ddarparu cymorth cydgysylltiedig i breswylwyr mewn angen.

Caiff y gwasanaeth ei ariannu'n llawn gan Gyngor Cymuned Parc Caia ac yn 2023/24 roedd yn gweithredu gyda chyllideb o £96.3K, sy'n cyfrif am 38% o incwm praesept y Cyngor. Mae hefyd yn darparu sesiwn wythnosol i Gyngor Cymuned Offa ar sail adennill costau.

Yn 2023/24, gwnaeth y tîm gynorthwyo 341 o unigolion ar draws 586 o achosion gwahanol. At ei gilydd, mae'r gwasanaeth wedi sicrhau dros £1.5 miliwn i'w gleientiaid, gan gynnwys £1.42 miliwn o fuddion ariannol parhaus a £154,000 mewn symiau untro ôl-ddyddiedig. Caiff y gwasanaeth ei ystyried yn achubiaeth i lawer o drigolion Parc Caia, sy'n aml yn wynebu anghenion cymhleth sy'n deillio o wahanol fathau o amddifadedd. Wrth i bwysau costau byw barhau, mae'r gwasanaeth yn ceisio cyllid allanol i ehangu eu cynnig cymorth drwy wella mynediad digidol a chynyddu eu gwaith allgymorth gyda phreswylwyr bregus.

## 3.9 Dosbarthu grantiau

Nododd chwech y cant o'r cynghorau a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn dosbarthu eu grantiau eu hunain. Gwnaed hyn drwy neilltuo cyfran o'u refeniw praesept fel cyllid grant i sefydliadau cymunedol ddarparu gweithgareddau costau byw. Nododd nifer o randdeiliaid fod hyn yn aml yn digwydd mewn ardaloedd lle mae sefydliad profiadol eisoes yn gweithredu (er enghraifft, grŵp gwirfoddol neu drydydd sector sy'n darparu gweithgareddau llesiant neu wasanaeth ieuenctid), gan beri risg o ddyblygu pe bai'r cyngor yn darparu'r gwaith eu hunain. Mewn rhai achosion, mae cynghorau Cymuned a Thref hefyd yn darparu grantiau costau byw i unigolion i gynorthwyo o ran treuliau gwresogi neu brynu bwyd.

Oherwydd y nifer cymharol fach o gynghorau a nododd yn ein harolwg eu bod yn darparu grantiau, ynghyd â'r amrywiaeth eang o ran strwythurau a chynulleidfaoedd targed y grantiau hyn, nid ydym wedi cynnwys y thema effaith hon o fewn y model effaith gymdeithasol. Mae dadansoddiad o'n harolwg yn dangos bod cynghorau a ymatebodd i'n harolwg wedi dosbarthu tua £97,000 mewn grantiau yn y flwyddyn ddiwethaf.

## Astudiaeth Achos: Cyngor Cymuned Pennard

Mae Cyngor Cymuned Pennard yn gwasanaethu ardal wledig wasgarog ym Mhenrhyn Gŵyr. Mae ei 2,322 o etholwyr, yn 2024, yn adlewyrchu demograffeg gymysg, gyda phoblogaeth hŷn sydd bellach wedi'i hategu gan deuluoedd iau yn sgil datblygu cartrefi newydd fforddiadwy. Mae yna anghydraddoldebau sylweddol ymhlith y gymuned: Mae Southgate yn gymharol ffyniannus, tra bod amddifadedd wedi gwreiddio mewn ardaloedd fel Sandy Lane. Mae trafnidiaeth gyfyngedig—dim ond bws cymunedol ddwywaith yr wythnos—yn golygu bod preswylwyr sydd heb geir wedi'u hynysu oddi wrth gyflogaeth, gwasanaethau a gofal iechyd. Gwnaeth rhai preswylwyr werthu eu ceir yn ystod y pandemig ac ni allent gael rhai yn eu lle, gan olygu mai dim ond dwy siop fach sydd o fewn cyrraedd. Roedd allgáu digidol hefyd yn cynyddu caledi, gan amlygu'r angen am gymorth ymarferol, er enghraifft i gael mynediad at siopa am fwyd ar-lein.

Lansiodd y cyngor Gynllun Cymorth Ynni, Bwyd a Thechnoleg Pennard (PEFTA) ym mis Mehefin 2020 i sicrhau nad oes neb yn mynd yn llwglyd. Gall aelwydydd cymwys dderbyn hyd at £50 (£20 i’r oedolyn cyntaf, £10 am bob oedolyn neu blentyn ychwanegol), a gall yr arian gael ei wario mewn siopau lleol yn unig er mwyn cefnogi preswylwyr a busnesau bach. Mae saib awtomatig yn y taliadau pan fydd rhywrai’n teithio neu’n aros yn yr ysbyty, a gall aelwydydd dderbyn cymorth yn achlysurol, gan gynnal urddas a hyblygrwydd.

Mae PEFTA yn costio tua £600 y mis (£7,000 yn flynyddol) a chaiff ei ariannu drwy gronfeydd wrth gefn y cyngor, grantiau Cyngor Abertawe ac elusen leol, Elusen Pennard, a cheir rhoddion ychwanegol gan fusnesau. Mae'r cyngor yn gweithio gyda Chydlynydd Ardal Cyngor Abertawe ac yn cynnal adolygiadau chwarterol i sicrhau bod yr angen yn parhau a bod y cynllun yn cael ei lywodraethu’n dda. Gwnaeth Un Llais Cymru gynorthwyo’r cyngor drwy gynghori ar bwerau statudol a cheisiadau grant i sefydlu'r cynllun.

Mae mentrau eraill sy’n gysylltiedig â chostau byw a gyflwynwyd gan y cyngor cymuned yn cynnwys

- Canolfan Glyd: Bu’n gweithredu am 2–3 blynedd ar gyllideb o £1,760, gan ddarparu mynediad wythnosol at fwyd a diod poeth mewn siop goffi leol ac eitemau am ddim mewn cyfleusterau cymunedol. Yn sgil arian dros ben, bu’n bosibl cynnal dau ginio cymunedol mawr i 150 o drigolion.
- Prosiect Urddas Mislif: Gwnaeth grant o £1,992.50 ariannu cynhyrchion mislif ecogyfeillgar i gael eu gosod mewn lleoliadau cyhoeddus.
- Gardd Gymunedol: Prosiect gwerth £52,000 wedi'i ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, sy'n cynnig mannau tyfu ar y cyd ac yn hybu cynhwysiant cymdeithasol a bioamrywiaeth. Mae'n cynnal sesiynau gwirfoddoli, ymgysylltiad ag ysgolion, gweithgareddau ar sail byd natur a gweithdai sgiliau.

Ers ei lansio, mae PEFTA wedi cynorthwyo 34 o unigolion ar draws 18 o aelwydydd. Mae'r buddiolwyr yn cynnwys pensiynwyr, rhieni sengl a phobl sy'n byw ar eu pen eu hunain sy'n wynebu straen ariannol oherwydd diswyddiad, problemau iechyd neu gyfrifoldebau gofal. Mae'r manteision a adroddwyd yn cynnwys gwell maeth, llai o straen a gwell lles—er enghraifft, dywedwyd bod un pensiynwr yn "sionc ei gam" wedi iddo allu prynu bwyd ffres eto. Mae siopau lleol hefyd yn elwa o sicrwydd masnach rheolaidd.

Mae'r Ganolfan Glyd, Prosiect Urddas Mislif a'r Ardd Gymunedol i gyd wedi ychwanegu haenau pwysig o gymorth ochr yn ochr â chynllun PEFTA, gan ehangu ymateb y Cyngor i'r argyfwng costau byw. Mae'r mentrau hyn yn ehangu cyrhaeddiad PEFTA drwy fynd i'r afael nid yn unig â phroblemau ariannol uniongyrchol, ond hefyd ag anghenion ehangach cymdeithasol, maethol a llesiant y gymuned. Roedd y nifer a fynychai'r Canolfan Glyd yn gymedrol, ond roedd y ciniawau cymunedol a'r boreau coffi a gefnogwyd ganddi yn darparu achubiaeth gymdeithasol hanfodol, gan leihau ynysigrwydd yn ystod cyfnod o straen ariannol ac emosiynol sylweddol. Fe wnaeth Prosiect Urddas Mislif leihau pwysau pellach ar aelwydydd drwy ddarparu cynhyrchion mislif am ddim mewn mannau cymunedol, a defnyddiwyd pob un ohonynt, gan ddangos bod galw amlwg. Mae'r Ardd Gymunedol yn cynnig cymorth cyflenwol drwy ddarparu mannau tyfu ar y cyd sy'n helpu i leihau costau bwyd, cryfhau cysylltiadau rhwng cenedlaethau a gwella bioamrywiaeth. Gyda thua 30 o wirfoddolwyr cofrestredig, mae'n cynorthwyo ceiswyr lloches, plant sy'n cael eu haddysgu gartref a phreswylwyr hŷn.

Cafodd PEFTA gydnabyddiaeth ar ffurf Gwobr Arfer Arloesol Un Llais Cymru. Mae'r cyngor cymuned yn bwriadu cynnal PEFTA fel rhwyd ddiogelwch ac ehangu gweithgareddau'r ardd gymunedol.

## 3.10 Trafnidiaeth gymunedol

Mae mentrau trafnidiaeth gymunedol wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu preswylwyr i gael mynediad at wasanaethau hanfodol a chymryd rhan ym mywyd y gymuned, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn brin neu wedi lleihau yn y blynyddoedd diwethaf. I lawer o gymunedau gwledig a chymunedau'r cymoedd, yn ogystal ag i bobl hŷn a'r rhai sydd â heriau symudedd, gall trafnidiaeth fod yn rhwystr sylweddol i gael mynediad at ofal iechyd, bwyd, gweithgareddau cymdeithasol, a gwasanaethau cymorth. Yn y cyd-destun hwn, mae llond llaw o Gynghorau Cymuned a Thref wedi datblygu mentrau trafnidiaeth i fynd i'r afael â materion hygyrchedd yn eu hardaloedd.

Nododd chwech y cant o'r cynghorau a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi darparu neu gynorthwyo menter trafnidiaeth gymunedol. Nododd rhanddeiliaid a chynghorau y gall mentrau trafnidiaeth gymunedol yn aml fod yn heriol i'w sefydlu a'u rheoli mewn ardal, a bod ar bob ardal leol angen ateb unigryw i fynd i'r afael â'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae enghreifftiau o'r mentrau trafnidiaeth gymunedol a gyflwynwyd gan ymatebwyr yr arolwg yn cynnwys bws cymunedol (naill ai drwy brynu bws neu bartneriaeth â sefydliad arall i ddarparu cerbydau), rhoi cymhorthdal i lwybrau trafnidiaeth i ardaloedd penodol fel canolfannau clyd, meddygon teulu neu siopau, neu reoli cynllun gyrwyr gwirfoddol.

Gan ei fod yn faes sy'n galw am lawer o adnoddau ac sy'n datblygu, rydym wedi dewis peidio â chynnwys trafnidiaeth gymunedol yn y model effaith gymdeithasol am fod y samplau’n fach ac am fod amrywiaeth eang yn y model darparu.

## Astudiaeth Achos: Cyngor Cymuned Llandeilo Ferwallt

Pentref ym Mhenrhyn Gŵyr yw Llandeilo Ferwallt, sydd â chyfleusterau manwerthu a gwasanaeth cyfyngedig yn y pentref ei hun. Mae’r preswylwyr yn aml yn teithio i aneddiadau cyfagos, yn enwedig y Mwmbwls, i ddefnyddio ystod ehangach o siopau, gwasanaethau iechyd, lleoliadau lletygarwch a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ymlaen i ganol dinas Abertawe.

Fel yn achos llawer o bentrefi mewn ardaloedd lled-wledig ac arfordirol, mae mynediad at drafnidiaeth breifat yn chwarae rhan bwysig wrth alluogi preswylwyr i gyrraedd gwasanaethau hanfodol a chyfleoedd cymdeithasol. Gall opsiynau trafnidiaeth reolaidd a fforddiadwy fod yn gyfyngedig i breswylwyr nad ydynt yn gyrru neu y mae’n well ganddynt beidio â defnyddio cerbydau preifat. Gall hyn greu rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau a chynnal cysylltiadau cymdeithasol, yn enwedig lle mae'r pellterau'n rhy fawr i gerdded a chostau tacsi'n rhy ddrud ar gyfer teithiau arferol.

Sefydlodd Cyngor Cymuned Llandeilo Ferwallt wasanaeth bws cymunedol flynyddoedd lawer yn ôl i ddarparu cyswllt trafnidiaeth rheolaidd rhwng Llandeilo Ferwallt a’r Mwmbwls. Crëwyd y gwasanaeth mewn ymateb i anghenion lleol, gyda'r nod o wella mynediad at siopau, gwasanaethau iechyd, gweithgareddau cymdeithasol a chysylltiadau trafnidiaeth pellach.

Mae'r bws yn gweithredu ddwywaith yr wythnos ac yn darparu pedair taith ddwyffordd y dydd. Mae'n gwasanaethu sawl safle yn Llandeilo Ferwallt, yn ogystal â safle yn Caswell, cyn teithio i’r Mwmbwls a dychwelyd. Mae'r dull hwn yn caniatáu i drigolion o wahanol rannau o'r pentref ddefnyddio'r gwasanaeth heb orfod teithio i un pwynt casglu canolog.

Caiff y gwasanaeth ei ariannu'n rhannol drwy braesept y Cyngor Cymuned, ond daw'r rhan fwyaf o'r cyllid o'r ffioedd y mae defnyddwyr y gwasanaeth yn eu talu. Mae'r Cyngor wedi adolygu cost y gwasanaeth yn rheolaidd ac wedi trafod y posibilrwydd o'i ddiddymu er mwyn arbed arian. Fodd bynnag, oherwydd y canlyniadau cryf y mae'r gwasanaeth yn eu sicrhau i'r preswylwyr, yn enwedig o ran ynysigrwydd cymdeithasol a mynediad at wasanaethau, mae'r Cyngor wedi penderfynu'n gyson i gadw'r gwasanaeth.

Yn fwy diweddar, mae'r Cyngor wedi dechrau defnyddio DANSA fel y darparwr trafnidiaeth, sydd wedi galluogi'r gwasanaeth i gael ei ddarparu'n fwy effeithlon ac am gost is. Mae'r newid hwn wedi gwella sefyllfa ariannol y gwasanaeth, ac mewn rhai misoedd mae'r gwasanaeth wedi cynhyrchu gwarged bach. Caiff unrhyw warged ei fuddsoddi yn ôl i mewn i weithgareddau cymunedol.

Mae'r adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda phreswylwyr yn dweud bod gwasanaeth o safon uchel iawn ac yn amlygu ei bwysigrwydd i'w bywydau bob dydd. Mae defnyddwyr rheolaidd yn dweud bod y gwasanaeth yn eu galluogi i gwrdd â ffrindiau, cael mynediad at siopau a gwasanaethau, a gwneud teithiau na fyddent fel arall yn gallu eu gwneud yn hawdd.

Dywedodd defnyddwyr, heb y gwasanaeth, y byddai'n rhaid iddynt naill ai gerdded tua thair milltir i gyrraedd y Mwmbwls, sy'n amhosibl i lawer, neu ddibynnu ar dacsis, sy'n ddrud i'w defnyddio'n rheolaidd. Mae’r ffaith bod opsiwn dibynadwy a fforddiadwy o drafnidiaeth ar gael felly yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'w gallu i ddal ati i fod yn weithgar ac yn annibynnol.

Mae defnyddwyr y gwasanaeth hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith bod mynediad at drafnidiaeth ddibynadwy wedi helpu i leihau teimladau o ynysigrwydd cymdeithasol ac wedi eu helpu i fyw'n annibynnol. Mae'r gwasanaeth yn caniatáu i bobl adael eu cartrefi, cynnal cysylltiadau cymdeithasol a pharhau i ddefnyddio gwasanaethau lleol.

Mae'r Cyngor Cymuned yn parhau i fonitro cost a defnydd y gwasanaeth, yn enwedig o ystyried pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol a chynghorau cymuned. Er bod cynaliadwyedd ariannol wedi bod yn bwnc trafod cyson, mae gwerth cymdeithasol y gwasanaeth wedi parhau i fod yn ffactor allweddol wrth benderfynu parhau i'w weithredu.

## 3.11 Cynhwysiant digidol, atgyweirio technoleg ac ailgylchu

Mae'r maes effaith olaf hwn yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau gan gynnwys gwersi TG, atgyweirio dyfeisiau, cynorthwyo i ailgylchu technoleg neu roi nwyddau ffisegol fel technoleg neu deganau i blant. Er nad yw'r holl weithgareddau hyn fel arfer yn cael eu darparu ar yr un pryd, wrth fapio meysydd effaith costau byw, gwelsom sawl achos lle'r oedd cynghorau'n cynnig cymorth mewn perthynas â chysylltedd digidol a thrwsio, neu wasanaethau trwsio ac ailgylchu, gyda'i gilydd.

Mae'r maes effaith hwn yn ceisio mynd i'r afael ag ystod eang o faterion sy'n codi o ganlyniad i gostau byw, gan gynnwys costau technoleg uwch ac allgáu digidol, a all waethygu heriau costau byw wrth i fwy o wasanaethau hanfodol symud ar-lein. Mae ymchwil o arolwg Understanding Society yn cadarnhau hyn, gan ddangos bod pwysau ariannol yn gwthio pobl i dorri gwariant ar wasanaethau a band eang. Yn ei dro, gall hyn yn aml wthio pobl sy'n 'all-lein' i gontractau ffôn, tocynnau bws a thrên a nwyddau a gwasanaethau sylfaenol sy'n ddrutach.[11].

Nododd wyth y cant o'r cynghorau eu bod wedi darparu gweithgaredd a oedd yn cyd-fynd â'r maes effaith hwn. Y gweithgaredd mwyaf cyffredin oedd gwersi TG i wella llythrennedd digidol. Fodd bynnag, dywedodd cynghorau eraill eu bod wedi darparu gweithgareddau fel caffis atgyweirio, ymgyrchoedd rhoi a siopau elusen.

Ar gyfer y model effaith gymdeithasol, rydym wedi canfod mai dyma'r effeithiau mwyaf cyffredin a welwyd yn sgil y cymorth ynghylch cynhwysiant digidol, atgyweirio ac ailgylchu:

- Mwy o hunanhyder wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd
- Cost atgyweirio wedi'i osgoi
- Arbedion cost o beidio â bod angen prynu dyfais newydd
- Arbedion carbon o beidio â bod angen prynu dyfais newydd.

Yn seiliedig ar ganlyniadau ein hymchwil, amcangyfrifir bod mentrau sy'n ymwneud â chynhwysiant digidol, atgyweirio ac ailgylchu, a gyflwynwyd gan Gynghorau Cymuned a Thref, wedi cynhyrchu gwerth cymdeithasol o **£80,973**.

[11] Understanding Society, Digital exclusion worsens cost of living crisis, Ebrill 2024.

## Astudiaeth Achos: Cyngor Cymuned Llanfairpwll

Tref yn ne-ddwyrain Ynys Môn yw Llanfairpwll, ger Pont Britannia sy'n arwain i Wynedd. Mae'r dref yn cynnal diwydiant twristiaeth iach ac mae'n gartref i tua 3,000 o drigolion, gyda llawer ohonynt yn teithio i Gaernarfon neu Fangor i weithio. Er bod y dref yn cael ei hystyried yn un o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru, mae yna ardaloedd ar draws Llanfairpwll sy'n wynebu heriau costau byw sydd wedi gwaethygu allgáu digidol ac ynysigrwydd cymdeithasol ymhlith rhai o'r preswylwyr hŷn.

Ar ddechrau 2024, ceisiodd aelodau Cyngor Cymuned Llanfairpwll fynd i'r afael â'r heriau roedden nhw wedi'u nodi drwy sefydlu 2 awr o sesiwn cymorth TG bob prynhawn dydd Llun yn Neuadd Goffa'r dref. Wedi'u cynnal gan ddau o gynghorwyr Llanfairpwll, mae'r sesiynau'n denu carfan o 8 o fynychwyr wythnosol rheolaidd yn ogystal â 2 i 4 o ymwelwyr achlysurol. Mae'r sesiynau'n rhoi pwyslais cryf ar ddysgu mewn grŵp, gan hefyd neilltuo amser i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau technolegol sydd gan bobl yn y sesiwn.

Nododd y cynghorwyr fod y sesiynau wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar hyder y rhai sy'n mynychu'n rheolaidd wrth ddefnyddio technoleg, gan helpu pobl a oedd yn aml wedi'u heithrio'n ddifrifol yn ddigidol o'r blaen. Ar ddechrau 2024, doedd gan lawer o'r mynychwyr fawr ddim profiad o ddefnyddio technolegau digidol, gan arwain y cynghorwyr i ganolbwyntio i ddechrau ar bynciau a fyddai'n darparu sylfaen gadarn fel pori ar y we, prosesu geiriau a chyfathrebu ar-lein drwy e-bost a negeseuon. Llai na blwyddyn yn ddiweddarach, mae’r cynghorwyr cymuned sy'n hwyluso'r sesiynau hyn wedi galluogi'r mynychwyr i ymwneud mwy â hobïau a diddordebau personol, cymdeithasu'n amlach gyda ffrindiau a theulu a chael mynediad at nwyddau a gwasanaethau rhatach fel tocynnau trên neu dalebau siopau, gan leddfu peth o'r pwysau yn sgil costau byw.

Ar ddiwedd 2024, llwyddodd y cynghorwyr sy'n arwain y grŵp i gael grant o £9,650 gan y Loteri Genedlaethol i wella eu seilwaith TG. Mae ganddynt bellach 15 o liniaduron newydd a locer gwefru yn y Neuadd Goffa, sy'n eu galluogi i barhau â'r sesiynau wythnosol, cynyddu nifer y rhai sy'n mynychu'n wythnosol a sicrhau parhad y cymorth hwn i breswylwyr Llanfairpwll sydd wedi'u heithrio'n ddigidol.

## Astudiaeth Achos: Cyngor Cymuned Rhosili

Mae Rhosili yn gymuned fechan, wledig iawn sydd wedi'i lleoli ar ben gorllewinol Penrhyn Gŵyr, o fewn Tirwedd Genedlaethol Gŵyr. Mae'r ardal yn cynnwys sawl safle cadwraeth dynodedig, sy'n ei gwneud yn amgylcheddol arwyddocaol. Mae gan y gymuned boblogaeth breswyl o tua 215 o bobl, ac mae bron i 40% ohonynt dros 65 oed. Mae dwysedd y boblogaeth yn isel gyda phentrefannau a phentrefi gwasgaredig.

Er bod gwerthoedd eiddo yn yr ardal yn gymharol uchel, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu incwm uchel i aelwydydd, gyda llawer o drigolion yn byw ar incwm sefydlog neu bensiwn. Mae'r cyd-destun hwn yn golygu bod y gymuned yn fwy bregus yn wyneb yr argyfwng costau byw, yn enwedig o ran yr arfer gynyddol o ddarparu gwasanaethau hanfodol drwy sianeli digidol.

Yn ystod pandemig COVID-19, sylweddolodd y gymuned yn gyflym pa mor bwysig oedd cael sianeli cyfathrebu ar-lein dibynadwy. Defnyddiwyd gwefan gymunedol a ddatblygwyd gan wirfoddolwr i gysylltu preswylwyr â gwasanaethau hanfodol a gwybodaeth leol. Pan laciwyd y cyfyngiadau symud, daeth yn amlwg y dylai'r adnodd digidol hwn barhau ac ehangu.

Fodd bynnag, gwnaeth arolwg papur o 170 o aelwydydd ddatgelu bod angen cymorth mewn perthynas â chynhwysiant digidol. Er bod y rhan fwyaf o'r preswylwyr yn berchen ar ddau ddyfais neu fwy a bod ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd, mynegodd bron i 71% awydd am fwy o gymorth TG.

Llwyddodd Cyngor Cymuned Rhosili i sicrhau £1,190 o gyllid drwy Bartneriaeth Datblygu Gwledig Abertawe i lansio Prosiect Peilot Cymorth TG gan Hwb Cymunedol Rhosili, a gynorthwywyd drwy gyfraniadau anariannol ar ffurf defnyddio lleoliadau'r cyngor ac amser gwirfoddolwyr. Wedi'i gyflwyno rhwng diwedd 2022 a dechrau 2023, roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar sesiynau ymarferol mewn amgylchedd cyfeillgar, di-jargon. Lluniwyd y pynciau'n uniongyrchol gan ymatebion y gymuned i arolwg anghenion TG, ac roedd y meysydd allweddol o ddiddordeb yn cynnwys osgoi twyll ar-lein, e-bostio gan gynnwys atodiadau, defnyddio codau QR, taenlenni, galwadau fideo, a llywio system ar-lein "Ask My GP".

Ar draws chwe gweithdy craidd a chyfres o sesiynau dilynol, gwnaeth y prosiect gynorthwyo 82 o gyfranogwyr, gydag 8–30 o drigolion fel arfer yn dod i bob sesiwn. Roedd pob gweithdy yn cynnwys ymarferion rhyngweithiol, ac roedd nifer ohonynt hefyd yn cynnig cymorth dilynol un i un.

Yn y ffurflenni gwerthuso a gwblhawyd ym mhob sesiwn, dangoswyd gwelliannau cryf o ran ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, sgiliau a hyder, a rhoddwyd sgoriau o 75% neu fwy yn y ddau gategori a sgoriodd uchaf. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'n arbennig yr amgylchedd cymdeithasol, yr arddangosiadau ymarferol, a'r cyfle i fenthyg dyfeisiau er mwyn parhau i ymarfer gartref.

Daeth stori un preswylydd i fod yn ddarlun grymus o effaith y prosiect. Ac yntau’n flaenorol yn dibynnu ar ei wraig i wneud unrhyw weithgarwch ar-lein, bu’n mynychu’r sesiynau fel dechreuwr llwyr. Ar ôl cael benthyg iPad a derbyn cymorth personol, enillodd ddigon o hyder i allu siopa ar-lein, trefnu apwyntiadau meddyg teulu a chadw mewn cyswllt â ffrindiau a theulu. Disgrifiodd y rhaglen fel un sy'n agor annibyniaeth newydd ym mywyd bob dydd.

Er i'r cyfnod ariannu ffurfiol ddod i ben ddechrau 2023, mae Cyngor Cymuned Rhosili yn parhau i ddarparu cymorth digidol a benthyciadau offer. Ers diwedd y peilot, cynhaliwyd sesiynau ychwanegol ar ddiogelwch ar-lein, deallusrwydd artiffisial a defnyddio camerâu ffonau clyfar, ac mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i gynnal y gwaith hwn.

## Astudiaeth Achos: Cyngor Tref Caernarfon

Cymuned fach yng Ngwynedd yw Caernarfon, gyda phoblogaeth oddeutu 10,299 yn 2024. Mae hanes diweddar y dref o ddirywiad manwerthu yn gyson â heriau strwythurol ehangach yn economi leol Gwynedd, lle mae cau siopau bach wedi lleihau mynediad at nwyddau hanfodol ac wedi symud y grym gwario i ffwrdd o ganol trefi. Mae heriau economaidd a chymdeithasol cydgysylltiedig yn cynnwys dirywiad yn yr opsiynau manwerthu lleol, wrth i lawer o siopau gau a'r siopau mwy o faint sy'n weddill yn cynnig dewis cyfyngedig yn unig, gan olygu nad oes gan y preswylwyr lawer o hanfodion fforddiadwy. Mae'n rhaid i deuluoedd yn aml deithio i le arall i brynu eitemau newydd sbon, gan ychwanegu costau teithio at brisiau manwerthu sydd eisoes yn uchel. I'r rhai ar incwm isel, mae hyn yn creu pwysau ariannol sylweddol.

Dechreuodd menter *O Law i Law* yn ystod pandemig COVID-19, pan y gwnaeth Cyngor Tref Caernarfon gydnabod yr angen dybryd am eitemau hanfodol i blant a dechrau casglu a storio eitemau a gafodd eu rhoi ar gyfer teuluoedd. Datblygodd yr ymateb brys hwn i fod yn siop gymunedol barhaol yng nghanol y dref, sy’n gwerthu nwyddau wedi’u rhoi am ffracsiwn o'u pris gwreiddiol. Gyda chymorth 25 o wirfoddolwyr ac un aelod o staff cyflogedig, mae'r siop wedi dod yn ased cymunedol pwysig ac mae bellach yn gweithredu ar elw.

Mae’r cyngor tref yn goruchwylio pob agwedd ar y prosiect, gan reoli'r broses gyfan o drefnu, glanhau a phrisio nwyddau sy’n cael eu rhoi i sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau uchel. Mae'r cyngor hefyd yn cydlynu'r tîm gwirfoddol, ac mae eu gwaith yn ganolog i droi rhoddion cymunedol yn stoc dibynadwy o ansawdd da. Mae'r siop yn canolbwyntio ar eitemau y mae galw mawr amdanynt, fel dillad babanod, dodrefn, teganau a dillad ysgol ail-law. Mae hyn wedi bod yn hanfodol i deuluoedd sy'n byw ar gyllideb dynn, gan eu helpu i gael gafael ar eitemau mewn cyflwr rhagorol heb y straen ariannol o brynu rhai newydd. Cyfeiriodd rhieni at y ffaith, cyn i'r siop agor, bod eitemau fel dillad ysgol yn "anodd eu cael" yn lleol. Mae'r siop hefyd yn lleddfu'r pwysau sy'n gysylltiedig â chyfnodau allweddol ym mywyd teulu—fel paratoi ar gyfer babi newydd—neu gyfnodau tymhorol drud fel y Nadolig.

Er iddo gael ei gynllunio yn wreiddiol fel ymateb tymor byr i'r pandemig, mae llwyddiant parhaus y siop wedi dangos bod yr heriau sylfaenol yn hirsefydlog. Mae ei ddatblygiad i fod yn adnodd cymunedol parhaol yn adlewyrchu'r angen dwfn am hanfodion fforddiadwy a phwysigrwydd cael ateb cynaliadwy, lleol.

# 4. Anghenion Cynghorau Cymuned a Thref

Bydd y adran hon yn trafod y rhwystrau a'r heriau sy'n wynebu Cynghorau Cymuned a Thref wrth geisio darparu gweithgareddau costau byw, gan dynnu ar dystiolaeth o'r llenyddiaeth ehangach sydd ar gael, adborth o'n harolwg o'r cynghorau a chyfweliadau ansoddol a gynhaliwyd gydag is-sampl o gynghorau a rhanddeiliaid eraill.


## 4.1 Rhwystrau a heriau sy'n wynebu Cynghorau

Adroddodd rhanddeiliaid a chynghorau mai capasiti, o ran staff a chyllid, yw'r her fwyaf sylfaenol y mae Cynghorau Cymuned a Thref yn aml yn ei hwynebu wrth gyflawni unrhyw weithgareddau yn eu hardal leol.

I'r rhan fwyaf o Gynghorau Cymuned a Thref, mae eu cyllideb yn cael ei phennu'n bennaf gan faint eu praesept, sef treth sy'n cael ei chodi ar eu preswylwyr ar ben y dreth gyngor. Adroddodd Archwilio Cymru yn 2022-23 fod 75% o incwm Cynghorau Cymuned a Thref yn dod o'u praeseptau blynyddol[12].

Mae Ffigur 4.1 yn dangos bod gan dros 55% o Gynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru gyllideb praesept o lai na £25,000 y flwyddyn, sy'n debygol o lesteirio eu gallu i roi adnoddau ariannol sylweddol y tu ôl i unrhyw weithgareddau costau byw yn eu hardaloedd.

Ffigur 4.1: Cynghorau Cymuned a Thref yn ôl maint praesept





Ffynhonnell: Data ar braeseptau cynghorau gan StatsCymru 2022-23, arsylwadau gwag (N=86) wedi'u heithrio.

[12] Archwilio Cymru, Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol – Gwersi o Waith Archwilio i Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru, 2025.

Mae tystiolaeth o'n harolwg yn cynnig rhywfaint o gefnogaeth i'r gydberthynas hon, gan ddangos bod cynghorau â phraesept mwy yn dweud eu bod ar gyfartaledd yn cyflawni nifer uwch o weithgareddau costau byw, gyda chynnydd nodedig mewn gweithgarwch yn achos cynghorau sydd â chyllidebau dros £200,000. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), mae disgwyl i Gynghorau Cymuned a Thref sydd â refeniw neu wariant gros o fwy na £200,000 gyfrannu at amcanion cynllun llesiant eu bwrdd gwasanaethau cyhoeddus lleol. Mae angen ymchwil bellach i ddeall a yw'r Ddeddf yn dylanwadu ar benderfyniad cynghorau i gyflawni gweithgareddau costau byw.

Ffigur 4.2: Nifer y gweithgareddau costau byw (hunan-adroddwyd) a ddarparwyd gan gynghorau yn ôl praesept




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o Gynghorau Cymuned a Thref (N=237).

Mae capasiti staff hefyd yn rhwystr sylweddol, wrth i randdeiliaid a chynghorau fynegi bod llawer o gynghorau ond yn gallu fforddio cyflogi un aelod o staff yn rhan-amser. Yn yr achosion hyn, nodwyd y gallai'r gofynion gweinyddol sylfaenol ar gyfer gweithredu Cyngor Cymuned neu Gyngor Tref yn aml gymryd holl amser cyflogedig y clerc.

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr i’n harolwg (60%) mai dim ond un aelod o staff oedd ganddynt; ymhlith y cynghorau hyn, roedd yr un aelod o staff wedi'i gontractio i weithio wyth awr yr wythnos ar gyfartaledd, sy'n cyfateb i 0.2 cyfwerth ag amser llawn.

Wrth drafod capasiti Cynghorau Cymuned a Thref, nododd mwyafrif y rhanddeiliaid a chynghorau hefyd y gallai'r sgiliau, y diddordebau a'r arbenigedd y mae’r staff a’r cynghorwyr yn eu cynnig i'w rolau effeithio ar eu tebygolrwydd o ddarparu cymorth costau byw. Gwnaeth y sawl a gymerodd ran yn y cyfweliadau ansoddol roi sawl enghraifft lle gallai cefndir unigolyn wella gallu’r cyngor i ddarparu gwasanaethau. Dyma enghreifftiau:


- Gallai cynghorwyr cymuned a thref a oedd â chysylltiadau proffesiynol penodol (e.e. yn y sector gwirfoddol neu mewn sefydliadau neu fusnesau penodol eraill) fod mewn sefyllfa gryfach i gydlynu gweithgareddau costau byw mewn ardal

- Roedd clercod tref â chefndir mewn rheolaeth ariannol yn fwy parod i ysgwyddo cyfrifoldeb am ased cymunedol a allai gael ei ddefnyddio i gynnal gweithgareddau costau byw
- Byddai cynghorwyr cymuned a thref a oedd hefyd yn gynghorwyr sir mewn gwell sefyllfa i gydweithio ag awdurdod unedol i gynnal gweithgareddau costau byw
- Gallai cyngor amrywiol o ran oedran, ethnigrwydd a rhywedd fod mewn sefyllfa gryfach i ddeall yr anghenion yn eu cymunedau ac ymateb yn effeithiol.

Gwnaeth ein harolwg o gynghorau cymuned a thref ganfod bod 61% o'r ymatebwyr wedi darparu o leiaf un gweithgaredd costau byw. Ymhlith y cynghorau hyn, dywedodd 37% y byddent yn hoffi darparu rhagor o wasanaethau costau byw. Ymhlith y 39% o ymatebwyr yr arolwg a oedd yn weddill, a nododd nad oeddent yn cynnal unrhyw weithgareddau costau byw, dywedodd 46% yr hoffent gynnal un.

Mae'r ffigwr 4.3 isod yn dangos canlyniad ein cwestiwn dilynol i gynghorau, a ofynnodd am y rhwystrau a wynebent a oedd yn eu hatal rhag naill ai darparu rhagor o weithgareddau costau byw neu ddarparu eu gweithgaredd costau byw cyntaf. Mae Ffigur 4.3 yn dangos mai cyllid a staff, a chapasiti cynghorwyr neu wirfoddolwyr, yw'r rhwystrau mwyaf amlwg i gynghorau sydd eisoes yn darparu gweithgareddau costau byw ac yn ceisio ehangu eu cynnig. Er bod capasiti ac ariannu hefyd yn rhwystrau amlwg i gynghorau nad ydynt erioed wedi cynnal gweithgaredd costau byw o'r blaen, mae ansicrwydd ynghylch y galw neu'r angen yn lleol hefyd yn rhwystr i dros hanner y cynghorau hyn.

Ffigur 4.3: Rhwystrau i gynnal gweithgareddau costau byw a adroddwyd gan gynghorau





Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o Gynghorau Cymuned a Thref.

# 4.2 Y cymorth sydd ar gael gan Un Llais Cymru

Bydd yr adran hon yn amlinellu'r cymorth syn cael ei ddarparu i Gynghorau Cymuned a Thref gan Un Llais Cymru.


Mae Un Llais Cymru yn darparu ystod o wasanaethau cynghori, cymorth ac eiriolaeth ar ran Cynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru. Gan ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac anghenion cynyddol eu aelod gynghorau, sefydlodd Un Llais Cymru dîm costau byw penodedig yn 2023 sy'n darparu cymorth ychwanegol i gynghorau, gan eu grymuso i fod yn bwynt cyswllt cyntaf i bobl leol mewn angen. Mae eu tîm costau byw yn darparu'r adnoddau canlynol:

- **Cylchlythyrau costau byw**: Mae Un Llais Cymru yn cyhoeddi sawl cylchlythyr misol sy'n amlygu cyfleoedd hyfforddi, astudiaethau achos o arferion da gan gynghorau eraill, yn ogystal â chyfleoedd ariannu grantiau. Yn 2024/25, fe wnaeth tîm costau byw Un Llais Cymru gyfeirio cynghorau at dros 110 o grantiau a chronfeydd gwahanol
- **Cynnal y fforwm costau byw**: Mae Un Llais Cymru wedi sefydlu fforwm costau byw ar-lein lle gall Un Llais Cymru, cynghorwyr tref a chymuned a chlercod rannu adnoddau, cyngor ac arferion da ar sut i fynd i'r afael â heriau yn eu hardal leol. Mae dros 150 o gynghorau bellach yn aelodau o'r fforwm
- **Hyfforddiant, gweminarau ac adnoddau**: Fel un o elfennau craidd cymorth costau byw Un Llais Cymru i gynghorau, maent wedi darparu ystod eang o becynnau cymorth, canllawiau, astudiaethau achos a gweminarau i alluogi cynghorau i sefydlu, rheoli a gwella eu gweithgareddau costau byw eu hunain yn eu hardaloedd lleol. Mae'r cymorth yn seiliedig ar ddysgu rhwng cymheiriaid, gan alluogi cynghorau i rannu arferion gorau ac adeiladu capasiti.



Gofynnwyd i gynghorau yn ein harolwg am eu defnydd o wahanol ffrydiau cymorth costau byw Un Llais Cymru. Mae Ffigur 4.4 yn dangos mai'r ffrwd a ddefnyddiwyd amlaf gan yr ymatebwyr oedd y gweminarau, ac yn agos wedyn roedd yr amryw becynnau cymorth gweithgareddau a chylchlythyrau gwybodaeth am grantiau. Y cyfuniad mwyaf poblogaidd o gymorth Un Llais Cymru a ddefnyddiwyd gan ymatebwyr yr arolwg oedd y gweminarau a'r pecynnau cymorth (18%), cyfuniad o'r holl gymorth a gynigiwyd ac eithrio'r fforwm ar-lein (13%) a'r gweminarau a’r cylchlythyr grantiau (13%).

Ffigur 4.4: Defnydd cynghorau o gymorth costau byw Un Llais Cymru




Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o Gynghorau Cymuned a Thref (N=214).

Pan ofynnwyd iddynt pa elfennau o gymorth Un Llais Cymru roedd y cynghorau yn eu hystyried yn arbennig o ddefnyddiol, daeth y themâu canlynol i'r amlwg yn eu hatebion:

- Cyfeiriodd dros hanner y cynghorau at ba mor hawdd oedd cysylltu â staff cymorth Un Llais Cymru a pha mor gyflym y gallent gael ymateb trylwyr a defnyddiol i broblem roedden nhw'n ei hwynebu
- Trafododd tua thraean o'r cynghorau sut y gwnaeth cymorth Un Llais Cymru ar faterion mwy gweithdrefnol helpu i ryddhau capasiti i gyflawni gwaith arall
- Dywedodd traean o'r cynghorau hefyd fod diweddariadau rheolaidd ar gyfleoedd cyllido ac enghreifftiau o arferion da gan gynghorau eraill yn agweddau defnyddiol iawn ar eu cymorth.

Gofynnwyd hefyd i'r cynghorau roi sgôr i ba mor ddefnyddiol oedd y cymorth a gynigiwyd gan dîm costau byw Un Llais Cymru, a rhoddwyd sgôr cyfartalog o 4.22 allan o 5.

Y tu hwnt i'r arolwg, gwnaethom gynnal pymtheg o gyfweliadau ansoddol ychwanegol gyda Chynghorau Cymuned a Thref i ddeall yn well yr effaith y mae cymorth costau byw Un Llais Cymru wedi'i chael ar eu gweithgarwch.

Dywedodd traean o'r cynghorau eu bod wedi defnyddio pecynnau cymorth a chymorth un-i-un Un Llais Cymru i wella'r gweithgareddau costau byw yr oeddent eisoes wedi'u sefydlu cyn dod i gyswllt ag Un Llais Cymru. Dywedodd dau gyngor fod Un Llais Cymru yn y broses o'u

cynorthwyo i sefydlu gweithgaredd costau byw newydd o'r cam cyntaf (canolfan glyd a chynllun trafnidiaeth gymunedol) drwy roi arweiniad ar arferion gorau a sut i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

Pan ofynnwyd iddynt sut y byddai eu gweithgareddau wedi datblygu heb gymorth gan Un Llais Cymru, credai traean o'r cynghorau y byddai eu gweithgareddau wedi parhau’n debyg iawn, yn bennaf oherwydd bod eu gweithgareddau wedi dechrau cyn prosiect Costau Byw Un Llais Cymru. Dywedodd pum cyngor y byddai ganddynt ddiffyg gwybodaeth am grantiau, arweiniad a chymorth ar sut i ddatblygu neu ehangu eu gweithgarwch mewn ffordd effeithiol, a allai fod wedi arwain at heriau o ran ariannu neu reoli'r gweithgarwch yn y tymor hwy. Dywedodd pedwar awdurdod fod y canllawiau ar arferion da gan Un Llais Cymru wedi eu galluogi i wella eu cynnig, ac mae rhai enghreifftiau o'r gwelliannau'n cynnwys ariannu cynnyrch mislif am ddim i fynd i'r afael â thlodi mislif, a datblygu cynllun tyfu cymunedol i ddarparu bwyd tymhorol am ddim. Nododd dau gyngor eu bod yn cyd-ddatblygu eu gweithgareddau gydag Un Llais Cymru, felly ni fyddai'r gweithgareddau hyn wedi mynd rhagddynt heb gymorth.

Pan ofynnwyd iddynt am yr agweddau mwyaf defnyddiol ar gymorth Un Llais Cymru, gwnaeth hanner y cynghorau a gyfwelwyd drafod mor ddibynadwy oedd cymorth dydd i ddydd Un Llais Cymru o ran cyngor cyfreithiol a chymorth gyda chwestiynau ynghylch cydymffurfiaeth a gweithredu. Aeth dau gyngor ymlaen i ddweud sut roedd y cymorth gweithredol hwn wedi helpu i ryddhau capasiti cyffredinol staff y cyngor, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar gyflawni gweithgareddau costau byw. Cyfeiriodd pum cyngor at werth y pecynnau cymorth arferion gorau a'r cylchlythyrau cyllido fel elfennau a oedd yn hwyluso eu gweithgareddau costau byw.

### 4.2.1 Y galw am gymorth yn y dyfodol

Pan ofynnwyd iddynt beth y gallai Un Llais Cymru ei gynnig i ddiwallu anghenion Cynghorau Cymuned a Thref yn y dyfodol, dywedodd dros hanner yr ymatebwyr i'r arolwg eu bod eisoes yn fodlon ar y cymorth oedd ar gael, naill ai gan ddweud nad oedd angen i Un Llais Cymru ychwanegu elfennau ychwanegol at eu cymorth costau byw, neu y dylent barhau â'r un math o gynnig. Darparodd grwpiau llai o ymatebwyr rai awgrymiadau ar gyfer elfennau ychwanegol o gymorth y gellid eu cynnig i wella eu gweithgarwch costau byw:

- **Hyfforddiant:** Nododd yr ymatebwyr eu bod eisiau i Un Llais Cymru barhau i gynnig hyfforddiant sylfaenol i gynghorwyr a chlercod, a dywedodd nifer ohonynt y byddent yn hoffi cael hyfforddiant sylfaenol pellach ar rwymedigaethau cyfreithiol cynghorau. Mae enghreifftiau eraill o gyrsiau sy’n cael eu hawgrymu yn cynnwys hyfforddiant ar sut i ymgynghori â'r gymuned leol a sut i gynnal gweithgareddau costau byw gyda grŵp bach o wirfoddolwyr
- **Cymorth i ysgrifennu ceisiadau am grantiau:** Dywedodd nifer o ymatebwyr y gallai Un Llais Cymru adeiladu ar eu gwasanaeth cyfeirio ynghylch grantiau drwy gynorthwyo cynghorau i ysgrifennu eu ceisiadau grant; dywedodd cynghorau llai yn benodol fod ysgrifennu ceisiadau grant wedi bod yn her iddynt

- **Rhagor o enghreifftiau o arferion da:** Roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol iawn am yr enghreifftiau o arferion da y mae tîm costau byw Un Llais Cymru eisoes wedi'u hamlygu. Dywedodd llond llaw o ymatebwyr yr hoffent gael enghreifftiau o arferion da gan gynghorau llai ac enghreifftiau o arferion da o ran cydweithio â sefydliadau eraill i osgoi dyblygu gwaith mewn ardal benodol.

Pan ofynnwyd iddynt am ba gymorth yr oedd ei angen arnynt y tu hwnt i Un Llais Cymru i gyflawni eu gwaith yn y dyfodol, dywedodd chwarter yr ymatebwyr i'r arolwg nad oedd angen unrhyw gymorth ychwanegol arnynt. Fodd bynnag, y mater a godwyd amlaf oedd y graddau y mae cyllid ar gael ac yn hygyrch y tu hwnt i'w praesept.

Cyfeiriodd traean o'r ymatebwyr at yr her barhaus o sicrhau adnoddau ariannol digonol i gyflawni prosiectau lleol, cynnal a chadw cyfleusterau cymunedol ac ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen am fwy o ffrydiau cyllido uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach na dibynnu ar ddyraniadau cyfyngedig sy'n treiddio i lawr drwy awdurdodau lleol. Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at hyn hefyd fel tensiwn allweddol i gynghorau llai, lle gallai cynyddu eu praesept i ariannu mwy o weithgareddau costau byw olygu cymryd mwy oddi ar y rhai y mae angen y cymorth arnynt. Aeth y rhanddeiliaid hyn ymlaen i ddweud bod Un Llais Cymru mewn sefyllfa dda i gydlynu'r cysylltiadau rhwng cyfleoedd ariannu posibl yn y trydydd sector a Chynghorau Cymuned a Thref, yn enwedig mewn amgylchiadau lle mae angen i ddarparwyr grantiau mawr gysylltu â chynghorau sy'n gweithredu ar lawr gwlad.

Mynegodd chwarter o ymatebwyr yr arolwg yr angen am welliannau o ran cyfathrebu a pherthnasoedd gwaith mwy adeiladol gydag awdurdodau lleol a sefydliadau mawr eraill. Roedd yn gyffredin i ymatebwyr gyfeirio at anawsterau wrth dderbyn ymatebion prydlon, gwybod pwy yw'r cysylltiadau cywir neu gael mynediad at wybodaeth gyson gan gynghorau sir a chyrff cyhoeddus allweddol. Mae Un Llais Cymru wedi gweithio'n helaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ffurfioli a gwella'r perthnasoedd rhwng awdurdodau lleol a Chynghorau Cymuned a Thref, yn enwedig o ran cynnig hyfforddiant Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynghorwyr a gwella'r cydweithrediad rhwng y ddwy haen o lywodraeth o ran cynllunio ariannol ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol.

# 5. Casgliadau

Mae tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r prosiect ymchwil hwn wedi dangos bod Cynghorau Cymuned a Thref wedi cynhyrchu gwerth cymdeithasol sylweddol drwy eu hymateb i'r argyfwng costau byw. Mae ein model effaith gymdeithasol yn amcangyfrif bod gwerth cymdeithasol o bron i £26 miliwn wedi'i gynhyrchu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig gan y cynghorau a ymatebodd i'n harolwg, sy'n gyfwerth ag adenillion cymdeithasol o fuddsoddi o £4.86 am bob £1 a wariwyd gan gynghorau. Mae'n debygol bod y ffigwr hwn yn amcangyfrif yn isel am gyfanswm y gwerth a gynhyrchwyd gan y sector yn ei gyfanrwydd.

Mae ein hymchwil yn dangos mai capasiti cynghorau, o ran staff a chyllid, yw'r rhwystr pennaf sy'n cyfyngu ar ddarparu gweithgareddau costau byw, wrth i’n canlyniadau ddangos cydberthynas gref rhwng maint y praesept a darpariaeth cymorth costau byw. Fel y mae'r sector ar hyn o bryd, mae gan y mwyafrif o gynghorau braesept o lai na £25,000, sy'n cyfyngu ar eu gallu i ehangu effeithiau cadarnhaol heb gymorth pellach. Er gwaethaf y rhwystrau hyn, mae yna garfan sylweddol o gynghorau sy’n awyddus naill ai i ehangu y tu hwnt i'w darpariaeth costau byw bresennol neu i ddechrau darparu gweithgareddau costau byw am y tro cyntaf.

Mae tystiolaeth o’r arolwg a’r cyfweliadau yn dangos yr ystyrir bod Un Llais Cymru yn werthfawr o ran hwyluso'r cymorth costau byw sy’n cael ei ddarparu gan y sector, wrth i gynghorau ganmol y cymorth gweinyddol a gweithredol sy’n cael ei ddarparu, ymatebolrwydd eu staff, a'r canllawiau a'r cyfeirio sy’n cael ei gynnig gan y tîm Costau Byw. Mae ein hymchwil wedi datgelu nifer o achosion lle mae gweithgareddau costau byw’r cynghorau wedi'u gwella gan gymorth Un Llais Cymru. Mae'n debygol y bydd arweiniad a chymorth Un Llais Cymru yn fwy dylanwadol fyth wrth lunio'r effaith gymdeithasol gadarnhaol a ddaw yn sgil y gweithgareddau costau a gaiff eu darparu gan gynghorau yn y blynyddoedd i ddod, wrth i'r ffocws droi at alluogi cynghorau llai, ond uchelgeisiol, i ddarparu cymorth i'w cymunedau.

Roedd y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r ymchwil hwn yn adleisio llawer o ganfyddiadau'r arolwg. Wrth drafod cyfyngiadau capasiti Cynghorau Cymuned a Thref, teimlwyd bod sgiliau a diddordebau staff a chynghorwyr yn ffactor penderfynol cryf o ran y tebygolrwydd bod cyngor yn darparu gweithgareddau sy'n ymwneud â chostau byw. O ran cyllid cynghorau, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid y gallai ffynonellau cyllid ychwanegol, y tu hwnt i annog cynghorau i gynyddu eu praesept, gynyddu nifer y cynghorau sy'n gallu darparu gweithgareddau costau byw yn eu hardal leol.

Ar sail canfyddiadau ein hadroddiad, rydym wedi cynnig nifer o argymhellion sydd wedi'u hanelu at Un Llais Cymru:

1. **Parhau i ddarparu'r cynnig presennol sydd wedi'i gynnwys ym mhrosiect Costau Byw**: Rhoddodd ymatebwyr i'n harolwg adborth cadarnhaol am bob agwedd ar y cymorth sy’n cael ei gynnig gan Un Llais Cymru, gan ganmol yn arbennig y gweminarau, y canllawiau a'r cyfeirio at grantiau.

2. **Ehangu’r cymorth i gynorthwyo cynghorau i lunio ceisiadau grant**: Mynegodd nifer o gynghorau’r angen am gymorth ychwanegol i ddatblygu eu capasiti i ysgrifennu ceisiadau grant. Gallai Un Llais Cymru ddarparu cyngor ar arferion da o ran ysgrifennu ceisiadau grant, neu ddarparu cymorth un-i-un i gynghorau sy'n dymuno edrych am gyllid grant.
3. **Mwy o gymorth pwrpasol i gynghorau llai**: Mae sector y Cynghorau Cymuned a Thref yn gogwyddo tuag at gynghorau sydd â phraeseptau bach a niferoedd isel o staff. Gwnaeth yr ymatebwyr i'n harolwg fynegi awydd am gymorth pwrpasol a oedd yn ystyried y cyfyngiadau ar adnoddau.
4. **Datblygu canllaw ymgysylltu â’r gymuned**: Ar ôl capasiti, y rhwystr mwyaf cyffredin i gynghorau oedd yn ceisio darparu gweithgaredd costau byw am y tro cyntaf oedd diffyg gwybodaeth am yr angen lleol. Dylai Un Llais Cymru ddefnyddio eu cyfuniad arferol o ganllawiau a dysgu rhwng cymheiriaid i rannu arferion da ar y ffyrdd gorau o fesur gofynion ac anghenion cymunedau lleol.
5. **Ymgysylltu â’r sector yn ehangach**: Mae dadansoddiad o sampl ein harolwg a thystiolaeth rhanddeiliaid yn dangos y gallai ein canlyniadau fod wedi'u gogwyddo i or-gynrychioli'r cynghorau mwyaf gweithgar ym maes costau byw. Mae angen ymgysylltu’n ehangach â’r sector mewn ffordd ysgafn i ddeall y gwaith sy’n cael ei wneud a'r heriau y mae’r sector yn ei gyfanrwydd yn eu hwynebu.

Y tu hwnt i Un Llais Cymru, rydym wedi cynnig rhai argymhellion ychwanegol a allai wella'r effaith gymdeithasol gadarnhaol y mae Cynghorau Cymuned a Thref yn ei chael.

6. **Ehangu’r ffynonellau cyllid sydd ar gael**: I gynghorau llai yn benodol, gall fod tensiwn cryf rhwng cynyddu'r praesept er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gweithgareddau costau byw. Mae angen ystod fwy amrywiol o ffynonellau cyllid ar Gynghorau Cymuned a Thref er mwyn ehangu eu darpariaeth cymorth, heb effeithio o bosibl ar incwm gwario preswylwyr lleol. Gellid gwneud hyn naill ai drwy ehangu meini prawf cymhwysedd grantiau penodol neu drwy gynnig ffynonellau cyllid uniongyrchol newydd i Gynghorau Cymuned a Thref.
7. **Gwella'r gwaith monitro a chasglu data ar ganlyniadau**: Wrth i Gynghorau Cymuned a Thref barhau i ddarparu cymorth rheng flaen i'w preswylwyr, dylid cymryd ymagwedd mwy strwythuredig at fonitro mewnbynnau ac allbynnau'r cymorth sy’n cael ei ddarparu, er mwyn cynorthwyo gwaith cynllunio yn y dyfodol a chryfhau'r achos dros gyllid allanol.
8. **Gwella cydweithrediad ag awdurdodau lleol**: mae'r berthynas waith rhwng Cynghorau Cymuned a Thref ac awdurdodau lleol ledled Cymru yn amrywio o ran ei hamlder a'i strwythur, a dywedodd llawer o ymatebwyr i'n harolwg y gallai ymgysylltu ag awdurdodau lleol fod yn heriol a gall gymryd llawer o amser. Gallai perthynas waith fwy ffurfiol rhwng y lefelau hyn o lywodraeth leol wella effeithlonrwydd darparu cymorth lleol. Un model posibl i'w ddilyn yw'r meini prawf ar gyfer gweithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref a sefydlwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

# Atodiad A - Mewnbynnau Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi

Tabl A.1: Gwerthoedd mewnbwn

| Ymyriad | Math | Gwerth |
|---|---|---|
| Y cyfan | Amser gwirfoddolwyr: | £2,511,813.18 |
| | Amser staff â thâl | £980,763.86 |
| Canolfannau Clyd | Cyllid | £166,529.29 |
| | Lleoliad/cymorth mewn nwyddau | £161,013.30 |
| Gweithgareddau llesiant | Cyllid | £393,088.84 |
| | Lleoliad/cymorth mewn nwyddau | £23,461.58 |
| Gweithgareddau ieuenctid | Cyllid | £516,536.21 |
| | Lleoliad/cymorth mewn nwyddau | £107,201.38 |
| Cyngor ar fudd-daliadau | Cyllid | £179,972.91 |
| | Lleoliad/cymorth mewn nwyddau | £84,395.02 |
| Cynhwysiant digidol | Cyllid | £45,304.92 |
| | Lleoliad/cymorth mewn nwyddau | £7,200.00 |
| Cymorth bwyd | Cyllid | £166,313.26 |
| **Cyfanswm Gwerth** | | **£5,343,593.75** |

# Atodiad B – Tabl Gwerth Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi

| Ymyriad | Rhanddeiliaid | Disgrifiad o'r canlyniad | Dirprwy | Gwerth | Uned | Nifer | Diffrwythedd % | Priodoldeb % | Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y cyfan | Gwirfoddolwyr | Cost amnewid wedi'i osgoi<br>Gwella llesiant<br>Gwella cyflogadwyedd<br>Gwella iechyd<br>Gwella cysylltiadau cymdeithasol | Gwerth Cymdeithasol ac Economaidd Gwirfoddoli | £2,477.00 | Nifer y gwirfoddolwyr | 2,372 | 35% | 50%-75% | **£2,299,563.20** |
| Canolfannau Clyd | Defnyddwyr | Arbedion ar gost gwresogi | Cost gyfartalog yr awr i wresogi aelwyd | £0.16 | Oriau person a dreuliwyd yn y ganolfan glyd | 797,940 | 54% | 50%-75% | **£35,536.43** |
| | | Llai o ynysigrwydd cymdeithasol | Gwerth lleihau ynysigrwydd cymdeithasol | £4,668.00 | Nifer y bobl | 5,710 | 54% | 50%-75% | **£2,970,818.19** |
| | | Cyfeirio at wasanaethau perthnasol | Gwerth banciau bwyd yn cyfeirio at wasanaethau perthnasol | £3,213.00 | Nifer y bobl | 224 | 45% | 33%-75% | **£251,084.51** |
| | | Prydau am ddim | Gwerth pryd ysgol am ddim yn Lloegr | £2.00 | Nifer y prydau | 19,740 | 34% | 33%-75% | **£13,397.29** |
| Gweithgaredd au lles (e.e. dosbarthiada u celf, teithiau | Cyfranogwyr rheolaidd | Gwella llesiant | Gwerth bod yn aelod o grŵp cymdeithasol | £2,122 | Nifer y bobl | 2,847 | 50% | 50%-75% | **£1,773,726.75** |

| Ymyriad | Rhanddeiliaid | Disgrifiad o'r canlyniad | Dirprwy | Gwerth | Uned | Nifer | Diffrwythedd % | Priodoldeb % | Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cerdded natur, clwb sinema) | Cyfranogwyr mewn gweithgareddau anaml | Cynnydd mewn hapusrwydd | Gwerth ymgymryd â hobïau, y celfyddydau neu grefftau | £12.18 | Niferoedd | 0 | 50% | 50%-75% | **£167,163.33** |
| | | | Gwerth mynd i theatr, perfformiad dawns neu gyngerdd | £19.65 | | 120 | 50% | 50%-75% | |
| | | | Gwerth gweithgaredd chwaraeon neu ymarfer corff | £10.11 | | 107 | 50% | 50%-75% | |
| | | | Gwerth gweithgareddau garddio | £10.93 | | 2,100 | 50% | 50%-75% | |
| | | | Gwerth gweithgareddau arsylwi natur | £9.67 | | 300 | 50% | 50%-75% | |
| | | | Digwyddiadau eraill | £10.00 | | 9,285 | 50% | 50%-75% | |
| | | Gwella llesiant | Cwrs Mam a Baban | £100.00 | | 306 | 50% | 50%-75% | |
| **Gweithgareddau ieuenctid** | Pobl ifanc (mynychwyr rheolaidd) | Gwella lles a manteision economaidd | Amcangyfrif o werth lles ac economaidd person ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ieuenctid | £1,550.00 | Nifer y bobl | 23,007 | 59%-60% | 25%-75% | **£16,502,174.35** |

| Ymyriad | Rhanddeiliaid | Disgrifiad o'r canlyniad | Dirprwy | Gwerth | Uned | Nifer | Diffrwythedd % | Priodoldeb % | Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | yr wythnos, sy'n cyfateb i weithgaredd amser llawn. | | | | | | |
| | Pobl ifanc (Cyfranogwyr untro) | Gwella llesiant | Presenoldeb untro mewn clybiau ieuenctid, Sgowtiaid, Geidiaid neu weithgaredda u wedi'u trefnu | £57.00 | Nifer y bobl | 1,541 | 59%-60% | 25%-75% | **£15,893.72** |
| | Pobl ifanc (y cyfan) | Prydau am ddim | Gwerth pryd ysgol am ddim yn Lloegr | £2.00 | Nifer y prydau | 34,798 | 18% | 25%-75% | **£23,150.43** |
| **Cyngor ar fudd-daliadau** | Cleientiaid | Cynnydd mewn incwm | Cynnydd cyfartalog a adroddwyd mewn incwm (os nad yw data a adroddwyd ar gael) | £760.00 | Nifer y bobl sy'n derbyn canlyniad | 1,945 | 23% | 50%-75% | **£676,137.72** |
| | | Llai o orbryder | Cost y cwrs Lleihau Straen a Chysgu'n Dda | £48.65 | Nifer y bobl | 4,797 | 23% | 50%-75% | **£94,410.10** |
| | | Yn fwy cadarnhaol am y dyfodol | Cost llyfr hunan-gymorth Seicoleg Gadarnhaol | £12.50 | Nifer y bobl | 4,167 | 23% | 50%-75% | **£21,070.99** |

| Ymyriad | Rhanddeiliaid | Disgrifiad o'r canlyniad | Dirprwy | Gwerth | Uned | Nifer | Diffrwythedd % | Priodoldeb % | Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Wedi’u grymuso | Wedi’u grymuso | £69.51 | Nifer y bobl | 5,172 | 23% | 50%-75% | **£145,428.70** |
| | | Sgiliau ariannol gwell | Cost Cwrs Cyllidebu i Gwsmeriaid | £104.26 | Nifer y bobl | 272 | 23% | 50%-75% | **£11,457.83** |
| | | Cyfeirio | Gwerth banciau bwyd yn cyfeirio at wasanaethau perthnasol | £3,213.00 | Nifer y bobl | 4,209 | 50% | 25% | **£167,035.84** |
| **Cynhwysiant digidol** | Defnyddwyr | Cynhwysiant digidol | Mwy o hunanhyder wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd | £240.00 | Nifer y bobl | 518 | 50% | 50%-75% | **£52,485.71** |
| | Defnyddwyr | Cost atgyweirio wedi'i osgoi | Cost gosod soced trydan newydd | £90.00 | Nifer y dyfeisiau | 208 | 50% | 50%-75% | **£5,895.00** |
| | Defnyddwyr | Arbedion cost am oes | Arbedion cost o beidio â bod angen prynu dyfais newydd | £310.23 | Nifer y dyfeisiau | 208 | 50% | 50%-75% | **£20,320.07** |
| | Yr amgylchedd | Arbedion carbon | Cost fesul tunnell o CO2 | £283.16 | Tunelli o CO2 | 31 | 50% | 50%-75% | **£2,171.84** |
| **Cymorth bwyd** | Defnyddwyr cymorth bwyd rheolaidd | Mynediad at fwyd maethlon<br>Gwell iechyd corfforol a meddyliol<br>Manteision addysgol a chymdeithasol<br>Arbed costau | Gwerth cael cymorth gan fanc bwyd | £185.00 | Nifer y bobl | 13,190 | 45% | 50%-75% | **£709,644.46** |

| Ymyriad | Rhanddeiliaid | Disgrifiad o'r canlyniad | Dirprwy | Gwerth | Uned | Nifer | Diffrwythedd % | Priodoldeb % | Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Defnyddwyr cymorth bwyd anaml | Pryd o fwyd am ddim | Gwerth pryd ysgol am ddim yn Lloegr | £2.00 | Nifer y prydau | 10,295 | 45% | 50%-75% | **£7,908.73** |

# Atodlen C – Rhestr o Randdeiliaid

Siaradom ag unigolion o'r sefydliadau canlynol i helpu i ddatblygu a llywio ein dealltwriaeth gyd-destunol ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, ac er mwyn gwirio canlyniad rhagarweiniol ein model effaith gymdeithasol.

| Sefydliad |
|---|
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion |
| Pwyllgor Gweithredol Cenedlaethol Un Llais Cymru |
| Tîm Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru |
| Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol |
| Llywodraeth Cymru |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

Cysylltwch â ni

0330 122 8658

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol

@wavehilltweets

wavehill